

TELERAU CYFFREDINOL

1. DIFFINIADAU

- 1.1 Yn y Contract, oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall, bydd gan y geiriau a'r ymadroddion yr ystyron a ddynodir iddynt yn Atodlen 1.
- 1.2 Mae pob pennawd yn yr Amodau hyn er hwylustod cyfeirio yn unig, ac ni fyddant yn effeithio ar luniad y Contract.
- 1.3 Mae unigolyn yn cynnwys unigolyn naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforedig (boed ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio) a chynrychiolwyr personol, olynwyr neu aseineion awdurdodedig yr unigolyn hwnnw. Bydd cyfeiriad at gwmni yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforaethol arall, ble bynnag a sut bynnag y cafodd ei gorffori neu ei sefydlu.
- 1.4 Bydd cyfeiriad at unrhyw barti yn cynnwys cynrychiolwyr personol, olynwyr neu aseineion awdurdodedig y parti hwnnw.
- 1.5 Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ato fel y mae ar waith o bryd i'w gilydd, a bydd yn cynnwys pob diwygiad, ailddeddfiad ac addasiad dilynol ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno.
- 1.6 Mae cyfeiriad at unrhyw beth ysgrifenedig neu ar bapur yn cynnwys ffacsiau.
- 1.7 Bydd unrhyw ymadrodd a gyflwynir gan y termau gan gynnwys, yn cynnwys, yn enwedig neu unrhyw ymadrodd tebyg yn cael ei ddehongli fel ymadrodd dangosol ac ni fydd yn cyfyngu ar synnwyr y geiriau sy'n rhagflaenu'r termau hynny.

2. BLAENORIAETH

- 2.1 Mewn perthynas ag unrhyw wrthdaro rhwng y dogfennau sy'n ffurfio'r Contract, bydd y gwrthdaro (oni nodir yn wahanol yn yr Amodau Cyffredinol neu Arbennig) yn cael ei ddatrys yn unol â'r drefn flaenoriaeth ganlynol:

- 2.1.1 Gorchymyn y Contract (ac eithrio unrhyw atodion neu atodiadau)
- 2.1.2 Amodau Arbennig;
- 2.1.3 Amodau Cyffredinol;
- 2.1.4 Unrhyw atodion neu atodiadau i Orchymyn y Contract;

2.1.5 Unrhyw ddogfen arall y cyfeirir ati yn y Contract.

2.2 Oni bai y cytunir fel arall, ni fydd dogfen a addasir yn unol ag amod 24 yn cael blaenoriaeth dros yr uchod.

3. **CYFNOD Y CONTRACT**

3.1 Bydd y Contract yn dechrau ar y dyddiad a nodir yng Ngorchymyn y Contract ac, yn amodol ar derfyniad cynnar yn unol â thelerau'r Contract, yn dod i ben ar ddyddiad olaf Cyfnod y Contract.

3.2 Bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau o fewn yr amser a nodir yng Ngorchymyn y Contract; mae Amser yn hanfodol ar gyfer pob amser, dyddiad a chyfnod a nodir yn y contract i'r Contractwyr gyflawni eu rhwymedigaethau.

4. **CYDWEITHREDIAD**

4.1 Bydd CNC yn penodi Goruchwyliwr Contract a fydd yn gallu cymryd camau mewn perthynas â'r Contract fel cynrychiolydd ac ar ran CNC.

4.2 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio ac yn cydweithredu gydag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan CNC neu Oruchwyliwr y Contract.

4.3 Bydd y Contractwr, gydol cyfnod y Contract, yn cadw Dogfennau mewn perthynas â phob agwedd ar y Gwasanaethau ac yn darparu'n brydlon i CNC gopiâu o'r Dogfennau neu wybodaeth ac adroddiadau eraill y bydd CNC yn gofyn amdanynt yn rhesymol mewn cysylltiad â materion yn ymwneud â darparu'r Gwasanaethau.

4.4 Bydd y Contractwr yn darparu i gyflenwyr eraill CNC, fel yr hysbysir y Contractwr amdanynt yn achlysurol, gydweithrediad, gwybodaeth, Dogfennau, cyngor a chymorth rhesymol mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau, ar gais CNC, gan gynnwys galluogi unrhyw unigolyn o'r fath i greu a chynnal rhyngwynebau technegol neu sefydliadol gyda'r Gwasanaethau a, phan fydd y Contract yn dod i ben am unrhyw reswm, galluogi'r Gwasanaethau (neu unrhyw ran ohonynt) i gael eu trosglwyddo i Gontractwr Amgen.

5. **Y GWASANAETHAU**

5.1 Bydd CNC yn cyflawni Rhwymedigaethau CNC a bydd y Contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau yn unol â'r Contract.

- 5.2 Fel rhwymedigaeth barhaus gydol Cyfnod y Contract, bydd y Contractwr yn sicrhau ei fod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o ddiffiniadau gwrthfeirysau sydd ar gael ac yn gwirio a dileu unrhyw feddalwedd faleisus.
- 5.3 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau, bydd y Contractwr yn cydymffurfio â gofynion yn ymwneud â thrafod data, a gyhoeddir gan CNC neu Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd, a bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Polisiâu Diogelwch a sicrhau bod rhwymedigaethau'n cael eu cyflawni yn unol â'r Polisiâu hynny.
- 5.4 Bydd y Contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau yn unol â Gorchymyn y Contract a'r Amserlen. Yn benodol, bydd y Contractwr yn cynllunio, yn datblygu ac, ar ôl cwblhau'r Profion yn llwyddiannus, yn darparu'r Gwasanaeth yn unol â Gorchymyn y Contract a fydd yn cynnwys, i osgoi unrhyw amheuaeth, gofynion mewn perthynas â lled band, defnyddio gweinyddion penodedig, argaeledd y Wefan a mynediad i drydydd partion.
- 5.5 Bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Lefelau Gwasanaeth ar ôl cwblhau'r Profion yn llwyddiannus.
- 5.6 Gofalu bod y cysylltiadau cyfathrebu a nodir (neu'r cysylltiadau priodol os nad oes rhai wedi'u nodi) ar waith ac yn weithredol fel y gall CNC, ei gyflenwyr a'i gwsmeriaid ddefnyddio'r Gwasanaeth yn ôl yr angen i fodloni gofynion CNC ar sail yr hyn y gellir yn rhesymol ei ragweld.
- 5.7 Bydd y Contractwr yn gwneud copïau wrth gefn dyddiol o leiaf o'r holl Feddalwedd, Data a deunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod copïau o'r fath yn cael eu cadw oddi ar y safle ac yn unol ag unrhyw gynllun parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb sydd ar waith gan CNC neu'r Contractwr. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod copïau o'r fath ar gael i CNC bob amser ar gais ac yn cael eu darparu i CNC o leiaf bob 3 mis neu ar gais CNC.
- 5.8 Efallai y bydd CNC yn monitro perfformiad Gwasanaethau'r Contractwr.
- 5.9 Bydd y Contractwr yn cydweithredu, ac yn mynnu bod unrhyw Is-gontractwyr yn cydweithredu, gyda CNC wrth gyflawni'r gwaith monitro y cyfeirir ato yn amod 5.8, heb godi tâl ychwanegol ar CNC.
- 5.10 Dim ond yn y Lleoliad Darparu y bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau, oni bai bod CNC yn cytuno fel arall ar bapur.

- 5.11 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau, bydd y Contractwr yn cydymffurfio â'r Safonau a'r Gofynion Iechyd a Diogelwch.
- 5.12 Ystyrir bod y Contractwr wedi bodloni ei hun mewn perthynas â maint, graddau a lleoliad y gwaith i'w gyflawni o dan y Contract.
- 5.13 Oni bai bod Gorchymyn y Contract yn nodi fel arall, bydd y Contractwr yn gyfrifol am gyrchu, cyflenwi, darparu a thalu am unrhyw Staff, cyfarpar, deunyddiau ac unrhyw ofynion eraill sy'n angenrheidiol i berfformiad y Contract.
- 5.14 Dim ond Staff â'r sgiliau a'r profiad priodol i gyflawni ei rwymedigaethau y bydd y Contractwr yn eu cyflogi. Yn benodol, bydd y Contractwr yn cydymffurfio â Gweithdrefn Fetio Staff CNC mewn perthynas â'r holl Staff a gyflogir i ddarparu'r Gwasanaethau y mae eu rôl yn cynnwys trafod gwybodaeth o natur sensitif neu gyfrinachol neu wybodaeth sy'n destun unrhyw fesurau diogelwch perthnasol.
- 5.15 Gall Goruchwyliwr y Contract wrthwynebu a gofyn i'r Contractwr ddiswyddo unrhyw unigolyn a gyflogir mewn perthynas â'r Contract sydd, yn ei farn resymol ef, yn anaddas, yn euog o gamymddwyn, yn anfedrus neu'n esgeulus wrth gyflawni ei ddyletswyddau neu'n parhau i ymddwyn mewn ffordd a allai beryglu iechyd neu ddiogelwch eraill. Ni fydd unigolion o'r fath yn cael eu cyflogi eto ar y Contract heb ganiatâd ysgrifenedig CNC o flaen llaw.
- 5.16 Bydd y Contractwr yn darparu hyfforddiant parhaus i'r holl staff sy'n cyfrannu at ddarparu'r Gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â'r Polisiâu Diogelwch, y Safonau a'r Gofynion Iechyd a Diogelwch.

6. **GOFYNION**

6.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod:

- 6.1.1 ei fod wedi gwneud ei ymholiadau ei hun i fodloni ei hun ynghylch cywirdeb a digonolrwydd unrhyw wybodaeth a gyflenwir iddo gan CNC neu ar ran CNC;
- 6.1.2 ei fod yn deall y gofynion a amlinellir yng Ngorchymyn y Contract;
- 6.1.3 ei fod yn deall yr Amgylchedd Gweithredu lle bydd y Gwasanaethau'n cael eu rhoi ar waith;

a'i fod yn credu y gall darparu'r Gwasanaethau.

6.2 Bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Amserlen berthnasol.

7. **MYNEDIAD**

7.1 Bydd y Contractwr yn darparu mynediad at y Gwasanaeth fel sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod CNC neu ei gyflenwyr trydydd parti yn gallu mwynhau buddion y Gwasanaeth, a fydd o leiaf yn cynnwys:

7.1.1 diweddarau unrhyw neu'r holl Feddalwedd, Data a deunyddiau eraill a gedwir gan y Gwasanaeth gyda Deunyddiau a ddarperir o bryd i'w gilydd gan CNC;

7.1.2 cynnal a chefnogi'r Feddalwedd, y Data a deunyddiau eraill.

7.2 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd mynediad yn cynnwys mynediad o bell neu, yn ôl yr angen, mynediad corfforol at y Gwasanaeth.

8. **DERBYN A PHROFI**

8.1 Ar ôl i'r Contractwr gwblhau'r gwaith o gynllunio a datblygu'r Gwasanaeth, bydd yn hysbysu CNC. Ar ôl derbyn yr hysbysiad, bydd gan CNC hawl i Brofi'r Gwasanaeth gwe-letya, er nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny. Os, ym marn resymol CNC, bydd y Gwasanaeth gwe-letya yn methu'r Profion, bydd CNC yn y lle cyntaf yn rhoi cyfle rhesymol i'r Contractwr gywiro unrhyw fethiannau a nodwyd. Yna gall ail-Brofi'r Gwasanaeth gwe-letya.

8.2 Os bydd y Gwasanaeth gwe-letya yn methu'r Prawf ar ddau achlysur neu fwy, neu os bydd y Contractwr yn methu â chywiro'r methiant a nodwyd yn unol ag amod 3.1 neu 3.2.2, gall CNC, yn ôl ei ddisgresiwn:

8.2.1 roi cyfleoedd pellach i'r Contractwr gywiro unrhyw fethiannau; neu

8.2.2 derfynu'r contract yn syth.

8.3 Hyd yn oed os bydd y Contractwr yn cwblhau'r Profion yn llwyddiannus yn unol ag amod 8.1, mae CNC yn cadw'r hawl i Brofi'r Gwasanaethau ymhellach, a chontractio cyflenwyr trydydd parti i Brofi'r Gwasanaethau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i brofion hacio a phrofion diogelwch eraill. Bydd y Contractwr yn cydweithredu gyda CNC neu unrhyw gyflenwyr trydydd parti mewn cysylltiad ag unrhyw Brofion o'r fath.

9. **PROFI**

- 9.1 Pan fydd y Contractwr wedi cwblhau'r Gwasanaethau (neu gwblhau carreg filltir lle mae Gorchymyn y Contract yn nodi cerrig milltir), bydd yn cyflwyno'r Feddalwedd Newydd ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig i'w Profi.
- 9.2 Ac eithrio lle mae amod 9.4 yn berthnasol, bydd pob parti yn talu ei gostau ei hun wrth gynnal y Profion.
- 9.3 Os bydd y Contractwr yn cwblhau'r Profion gofynnol yn llwyddiannus, bydd CNC yn cadarnhau y bydd yn derbyn y Gwasanaethau o fewn cyfnod rhesymol i gwblhau'r Profion. Er y bydd CNC yn cadarnhau y bydd yn eu derbyn, bydd y Contractwr yn dal i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y Gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu mewn ffordd sy'n bodloni'r gofynion a'u rhoi ar waith yn unol â'r Contract.
- 9.4 Os na fydd y Contractwr yn llwyddo i gwblhau neu basio unrhyw Brawf, gall CNC, yn ôl ei ddisgresiwn (a heb ildio unrhyw hawliau mewn perthynas ag opsiynau eraill) ddewis:
- 9.4.1 Caniatáu i'r Contractwr gywiro'r camgymeriadau yn y Prawf ac ailgyflwyno ar gyfer Profi'n unol ag amod 9.1; neu
 - 9.4.2 Dderbyn y Gwasanaethau yn amodol ar gywiro'r camgymeriadau yn y Prawf; a/neu
 - 9.4.3 Derfynu'r Contract yn gyfan gwbl neu'n rhannol; a/neu
 - 9.4.4 Ei gwneud hi'n ofynnol i'r Contractwr dalu'r Taliadau Methu Prawf am bob prawf pellach neu adolygiad pellach

cyn belled na fydd CNC yn ymarfer yr opsiynau o dan 9.4.3 a 9.4.4 oni bai bod dau Brawf wedi'u cynnal a'u methu.

- 9.5 Os nad yw Gorchymyn y Contract yn nodi'r Taliad Methu Prawf, mae'r Awdurdod yn cadw ei hawl i adennill gan y Contractwr unrhyw gostau ychwanegol rhesymol sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i ail-Brofi Prawf neu adolygiad pellach. I osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r penderfyniad i dalu'r Taliad Methu Prawf ai peidio yn eithrio neu ddileu unrhyw hawliau eraill sydd gan CNC i adennill iawndal neu golledion eraill sy'n codi o ganlyniad i fethiant y Contractwr i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Contract.

10. **FERSIYNAU NEWYDD**

- 10.1 Lle mae'r Feddalwedd wedi'i derbyn yn unol ag amod 9.3, ac oni nodir yn wahanol yng Ngorchymyn y Contract, bydd y Contractwr yn darparu i CNC fersiynau newydd neu ddiweddariadau i'r Feddalwedd (gan gynnwys fersiynau cynnal a chadw a fersiynau trwsio namau) y bydd yn eu datblygu o bryd i'w gilydd heb godi tâl ar CNC. Bydd unrhyw fersiynau newydd yn cael eu trwyddedu ar yr un telerau ag sydd wedi'u cynnwys yn y Contract hwn.
- 10.2 Bydd gan CNC hawl i brofi pob fersiwn newydd, boed yn fersiwn cwbl newydd, fersiwn diwygiedig, yn fersiwn cynnal a chadw neu'n fersiwn arall, cyn ei rhoi ar waith.
- 10.3 Ni fydd fersiwn o'r fath yn cael ei rhoi ar waith mewn amgylchedd byw tan i Brofion o'r fath gael eu cwblhau'n llwyddiannus.

11. TELERAU TRWYDDEDU

- 11.1 Mae'r Contract yn trwyddedu i CNC yr hawl i ddefnyddio, gweithredu, llwytho, trosglwyddo a chopio'r Feddalwedd. Bydd trwydded o'r fath yn barhaol ac yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau eraill, gan gynnwys niferoedd defnyddwyr neu weinyddion. Yn ogystal, oni bai y nodir ffi drwydded yng Ngorchymyn y Contract, bydd y drwydded yn rhydd o freindal.
- 11.2 Gall CNC is-drwyddedu'r hawliau a ganiateir iddo yn unol ag amod 11.1 i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, i osgoi unrhyw amheuaeth, unrhyw Contractwr Amgen).

12. DARPARU A GWEITHREDU

- 12.1 Bydd y Contractwr yn darparu'r Feddalwedd erbyn y dyddiad ac yn y modd a nodir yng Ngorchymyn y Contract. Os bydd Gorchymyn y Contract yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Contractwr weithredu'r Feddalwedd, bydd y Contractwr yn gwneud hynny yn unol â'r Contract ac unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol y bydd CNC yn eu gwneud o bryd i'w gilydd.
- 12.2 Ar ôl derbyn y Feddalwedd, neu ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith os mai'r Contractwr sy'n gyfrifol am hynny, bydd gan CNC hawl i Brofi'r Feddalwedd, er nad yw'n ofynnol iddo wneud hynny. Os bydd y Feddalwedd yn methu'r Profion ym marn resymol CNC, bydd CNC yn rhoi cyfle rhesymol i'r Contractwr ail-ddarparu'r Feddalwedd ac, os yn berthnasol, ei rhoi ar waith cyn ail-Brofi'r Feddalwedd.

12.3 Os bydd y Feddalwedd yn methu'r Prawf ar ddau achlysur neu fwy, neu os bydd y Contractwr yn methu ag ail-ddarparu'r Feddalwedd a'i rhoi ar waith yn unol ag amod 12.2 neu 12.3.1, gall CNC, yn ôl ei ddisgresiwn:

12.3.1 Roi cyfleoedd pellach i'r Contractwr ail-ddarparu'r Cynhyrchion a'u rhoi ar waith yn unol ag amod 12.2; neu

12.3.2 ddychwelyd y Feddalwedd a therfynu'r contract yn syth.

12.4 Lle mae'r Feddalwedd wedi'i derbyn yn unol ag amod **Error! Reference source not found.**, ac oni nodir yn wahanol yng Ngorchymyn y Contract, bydd y Contractwr yn darparu i CNC fersiynau newydd neu ddiweddariadau i'r Feddalwedd (gan gynnwys fersiynau cynnal a chadw a fersiynau trwsio namau) y bydd yn eu datblygu o bryd i'w gilydd heb godi tâl ar CNC. Bydd unrhyw fersiynau newydd yn cael eu trwyddedu ar yr un telerau ag sydd wedi'u cynnwys yn y Contract hwn.

13. **FERSIYNAU TRWSIO NAMAU**

Bydd y Contractwr yn cynnal cronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth am namau, cywiriadau, cyfyngiadau a dargyfeiriadau mewn perthynas â'r Feddalwedd ac yn caniatáu i CNC gael mynediad at gronfa ddata o'r fath heb godi tâl ychwanegol arno yn ystod cyfnod y drwydded.

14. **RHOI AR GADW**

Bydd y Contractwr, heb fod yn fwy na 10 Diwrnod Gwaith ar ôl derbyn cais gan yr Awdurdod, yn rhoi cod ffynhonnell y Feddalwedd (gan gynnwys unrhyw Feddalwedd Newydd) ar gadw (ESCROW) gydag NCC ar sail y cytundeb safonol priodol. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y cod ffynhonnell a roddir ar gadw'n cyfateb i'r fersiwn bresennol o'r Feddalwedd (gan gynnwys Meddalwedd Newydd) a bod y fersiwn a roddir ar gadw'n cael ei diweddarau wrth i'r Feddalwedd gael ei haddasu neu ei huwchraddio.

15. **ADRODDIADAU A DOGFENNAETH**

15.1 O ran y rhwymedigaeth i ddarparu'r Ddogfennaeth, bydd y Contractwr yn darparu adroddiadau misol i CNC mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaeth. Bydd adroddiadau o'r fath yn cynnwys:

15.1.1 Perfformiad yn erbyn pob Lefel Gwasanaeth unigol;

- 15.1.2 Nifer y materion a nodwyd (naill ai gan CNC neu gan y Contractwr), ynghyd â dosbarthiad y materion lle nodir hynny yng Ngorchymyn y Contract;
 - 15.1.3 Nifer y materion a ddatryswyd;
 - 15.1.4 Nifer y materion na chawsant eu datrys erbyn diwedd y mis;
 - 15.1.5 Unrhyw wybodaeth arall yng Ngorchymyn y Contract.
- 15.2 Yn ogystal, bydd y Contractwr yn creu a chynnal cofnod o'r holl faterion a godwyd, ynghyd â manylion technegol ynglŷn â sut y cafodd materion o'r fath eu datrys. Bydd y cyfryw gofnod yn cael ei ddarparu i CNC ar gais a phan fydd y Contract yn dod i ben beth bynnag.

16. **DOGFENNAETH**

- 16.1 Ledled y Gwasanaethau, bydd y Contractwr yn cadw cyfres gyflawn o ddogfennau technegol a fydd o leiaf yn cynnwys:
- 16.1.1 Cynllun manwl y Feddalwedd Newydd a deunyddiau cysylltiedig;
 - 16.1.2 Ffurfweddiad manwl o'r dull gweithredu;
 - 16.1.3 Namau hysbys a datrysiadau a/neu ffyrdd o amgylch problemau.

Bydd dogfennaeth o'r fath ar gael i CNC ar gais yn ystod y Contract ac yn cael ei darparu i CNC o fewn mis i derfynu'r Contract beth bynnag.

17. **LEFELAU GWASANAETH**

- 17.1 Yn ystod Cyfnod y Contract, bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau i fodloni neu ragori ar y Lefelau Gwasanaeth.
- 17.2 Os bydd y Contractwr yn methu â gwneud hyn, neu os yw'n credu y bydd yn methu un neu fwy o'r Lefelau Gwasanaeth, bydd y Contractwr yn hysbysu CNC ac yn mynd ati i gymryd camau adfer yn syth i sicrhau na fydd y methiant o ran Lefel Gwasanaeth yn digwydd eto yn y dyfodol.
- 17.3 I osgoi unrhyw amheuaeth, ni ystyrir bod y Contractwr wedi methu Lefel Gwasanaeth os yw'r methiant o ganlyniad llwyr i CNC yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

18. CREDYDAU GWASANAETH

- 18.1 Lle nodir yng Ngorchymyn y Contract bod Credydau Gwasanaeth yn berthnasol i'r methiant Lefel Gwasanaeth, bydd y Contractwr yn rhoi Credydau Gwasanaeth i CNC yn awtomatig. Bydd Credydau Gwasanaeth yn cael eu dangos fel didyniad o'r swm sy'n ddyledus gan CNC i'r Contractwr yn yr anfoneb nesaf i'w chyhoeddi o dan y Cytundeb hwn. Os nad oes anfoneb i'w chyhoeddi, bydd y Contractwr yn cyhoeddi nodyn credyd yn erbyn yr anfoneb flaenorol a bydd swm y Credydau Gwasanaeth i'w ad-dalu gan y Contractwr fel dyled o fewn 10 Diwrnod Gwaith i gyhoeddi'r nodyn.
- 18.2 Lle darperir Credydau Gwasanaeth, bydd Credydau Gwasanaeth o'r fath heb ymrwymiad i unrhyw gamau unioni hawliau eraill sydd ar gael i CNC.

19. CYNLLUNIAU PARHAD BUSNES AC ADFER AR ÔL TRYCHINEB

- 19.1 Bydd y Contractwr, fel rhan o'r Gwasanaeth, yn sicrhau ei fod yn creu, yn cynnal ac yn cydymffurfio â chynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb fel sy'n ofynnol yng Ngorchymyn y Contract, neu fel arall fel y bydd CNC yn ei gwneud hi'n ofynnol o bryd i'w gilydd.

20. GWARANTAU

- 20.1 Mae'r Contractwr yn gwarantu:
- 20.1.1 y bydd gweithrediad y Gwasanaeth yn ddi-dor ac yn rhydd o wallau a namau materol; ac
 - 20.1.2 y bydd y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r Lefelau Gwasanaeth; ac
 - 20.1.3 wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb, y bydd yr holl Feddalwedd a ddefnyddir gan neu ar ran y Contractwr:
 - (a) yn fersiwn a gefnogir yn gyfredol o'r Feddalwedd honno; ac
 - (b) yn perfformio yn unol â'i manyleb ym mhob agwedd faterol.
- 20.2 Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn cynrychioli y bydd y Feddalwedd, am gyfnod o 180 diwrnod o'r dyddiad derbyn (neu'r dyddiad darparu os na chafodd ei Phrofi), yn gweithredu yn unol â'r gofynion a'r fanyleb a nodir, neu a atodir i Orchymyn y Contract ac unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y Contractwr mewn perthynas â'r Feddalwedd.

20.3 At ddibenion y warant yn amod 20.2, os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y gofynion a'r fanyleb a nodir, neu a atodir i Orchymyn y Contract ac unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y Contractwr, y gofynion a'r fanyleb fydd yn cael blaenoriaeth.

20.4 Mae'r Contractwr yn gwarantu:

20.4.1 Y bydd yn datblygu'r Feddalwedd Newydd yn unol â'r safonau codio datblygu meddalwedd a nodir gan CNC yng Ngorchymyn y Contract neu, os na nodir safonau o'r fath, yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant;

20.4.2 Y bydd y Gwasanaethau'n perfformio'n unol â'r gofynion a nodir yng Ngorchymyn y Contract ac unrhyw wybodaeth arall am berfformiad y mae'r Contractwr wedi'i darparu i CNC am gyfnod o chwe mis o leiaf.

21. **HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL – FFYNHONNELL AGORED**

Bydd amod 11 yn yr Amodau Cyffredinol yn berthnasol fel arbediad ysgrifenedig os bydd y Gwasanaethau'n gwella neu'n datblygu Meddalwedd Ffynhonnell Agored a bod telerau trwyddedu'r Feddalwedd Ffynhonnell Agored yn gwrthdaro ag amod 11 yn yr Amodau Cyffredinol. Os bydd yna wrthdaro o'r fath, bydd telerau trwyddedu'r Feddalwedd Ffynhonnell Agored yn cael blaenoriaeth.

22. **EIDDO**

22.1 Bydd holl Eiddo CNC yn parhau i fod yn eiddo i CNC, a dim ond i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn y bydd y Contractwr yn ei ddefnyddio.

22.2 Y Contractwr fydd yn llwyr gyfrifol am gadw Eiddo CNC a chyfarpar a deunyddiau'r Contractwr yn ddiogel ac mewn cyflwr da. I osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd CNC yn atebol am unrhyw golled a ddaw i ran y Contractwr mewn perthynas â cholled neu ddifrod i gyfarpar a/neu ddeunyddiau'r Contractwyr, hyd yn oed os bydd y golled neu'r difrod yn digwydd ar Eiddo CNC.

22.3 Ymhellach, bydd yn storio Eiddo CNC ar wahân i unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau eraill, gan ei farcio'n glir ei fod yn eiddo i CNC.

22.4 Pan ddaw'r Contract i ben neu os bydd yn cael ei derfynu'n gynnar, bydd y Contractwr, os bydd angen, naill ai'n ildio'r cyfryw Eiddo CNC i CNC neu'n ei waredu yn unol â chyfarwyddyd Goruchwyliwr y Contract.

23. **ASEINIAD**

- 23.1 Ni fydd y Contractwr yn aseinio, trosglwyddo, is-gontractio na gwaredu'r Contract, nac unrhyw ran ohono, mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig Goruchwyliwr y Contract.
- 23.2 Lle darperir cydsyniad yn unol ag amod 23.1, ni fydd unrhyw is-gontract a wneir yn rhyddhau'r Contractwr o unrhyw un o'i rwymedigaethau neu ei ddyletswyddau o dan y Contract a bydd y Contractwr yn gyfrifol am weithredoedd ac esgeulustod ei isgontractwyr fel pe bai ef sydd wedi'u cyflawni.
- 23.3 Gall CNC ddisodli, aseinio, trosglwyddo, codi tâl, morgeisio, is-gontractio neu ymdrin ag unrhyw un o'i hawliau o dan y Contract mewn unrhyw fodd arall, a gall is-gontractio neu ddirprwyo unrhyw un o'i rwymedigaethau neu ei holl rwymedigaethau o dan y Contract i drydydd parti neu asiant.
- 23.4 Os bydd CNC yn penderfynu disodli unrhyw un o'i rwymedigaethau neu ei holl rwymedigaethau o dan y Contract hwn, bydd y Contractwr yn gweithredu unrhyw ddogfennau o'r fath sy'n ofynnol yn rhesymol gan CNC i sicrhau bod y disodli'n cael yr effaith ofynnol.
- 23.5 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod amod yn cael ei gynnwys mewn unrhyw is-gontract a ganiateir o dan y Contract hwn sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Contractwr dalu unrhyw symiau diamheuol sy'n ddyledus i'r is-gontractwr perthnasol o fewn cyfnod penodedig nad yw'n fwy na 30 diwrnod o'r dyddiad y mae'r Contractwr yn derbyn anfoneb yr is-gontractwr.

24. **AMRYWIADAU**

- 24.1 Gall y naill barti neu'r llall gynnig amrywiad i'r Contract hwn cyn belled â bod unrhyw amrywiad o'r fath yn:
- 24.1.1 Dilyn y broses a amlinellir yn amod 24; ac
 - 24.1.2 Na fydd amrywiad o'r fath yn cael ei roi ar waith heb gytundeb ysgrifenedig y ddau barti.
- 24.2 Os bydd y naill barti neu'r llall yn cynnig amrywiad, bydd y Contractwr, heb fod yn ddiweddarach na 5 Diwrnod Gwaith ar ôl derbyn y cynnig i amrywio, yn darparu amrywiad arfaethedig i'r contract i CNC, gan nodi o leiaf:

- 24.2.1 Natur yr amrywiad arfaethedig;
 - 24.2.2 Yr effaith ar y Gwasanaethau presennol;
 - 24.2.3 Unrhyw oblygiadau cost i'r Contract, gan gynnwys unrhyw Daliadau parhaus sy'n gysylltiedig â'r amrywiad;
 - 24.2.4 Yr amserlenni a'r diwrnodau gwaith fydd eu hangen i gyflwyno'r amrywiad;
 - 24.2.5 Unrhyw wybodaeth arall a fydd yn ofynnol gan CNC pan fydd y cynnig yn cael ei gyhoeddi.
25. Bydd gwerth unrhyw amrywiad arfaethedig o'r fath yn cael ei bennu trwy gyfeirio at y cyfraddau yng Ngorchymyn y Contract. Os nad yw'r cyfraddau yng Ngorchymyn y Contract yn berthnasol i'r amrywiad arfaethedig, byddant yn cael eu pennu ar gyfradd deg a rhesymol a gytunir rhwng Goruchwyliwr y Contract a'r Contractwr.
- 25.1 Lle mae amrywiad o ganlyniad i ryw ddiffyg gan y Contractwr neu os bydd wedi torri'r Contract neu wneud rhywbeth arall y mae'n llwyr gyfrifol amdano, bydd unrhyw gost ychwanegol a briodolir i'r amrywiad yn cael ei godi ar y Contractwr.
26. **TERFYNIAD**
- 26.1 Gall CNC, heb ymrwymiad i unrhyw hawliau a champau unioni eraill o dan y Contract, derfynu'r Contract neu unrhyw ran o'r Contract yn syth trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr, os bydd y Contractwr:
- 26.1.1 yn mynd yn fethdalwr neu'n ansolfent, neu'n destun gorchymyn derbyn, neu'n dod i gytundeb gyda'i gredydwr neu (fel corfforaeth) yn dechrau cael ei ddirwyn i ben, neu fod derbynnydd, gweinyddwr neu dderbynnydd gweinyddol yn cael ei benodi gan Lys neu ddigwyddiad tebyg arall mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw at ddibenion adluniad neu gyfuniad solfent; neu
 - 26.1.2 yn cyflawni trosedd, neu os bydd unrhyw un o'i gyfarwyddwyr, ei bartneriaid neu ei uwch staff yn cyflawni trosedd, fel yr amlinellir yn Rheoliad 23 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (fel y'u diwygiwyd) neu'n euog o unrhyw dwyll neu anonestrwydd neu'n gweithredu mewn unrhyw ffordd y bydd CNC o'r farn ei bod yn

dwyn anfri neu'n debygol o ddwyn anfri ar y Contractwr neu CNC neu'n gwbl groes i fuddiannau CNC; neu

26.1.3 yn dioddef neu'n caniatáu i unrhyw weithrediad, boed hynny'n gyfreithiol neu'n deg, gael ei godi ar ei eiddo neu ei sicrhau yn ei erbyn, neu'n methu â thalu ei ddyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansofedd 1986 neu os bydd y Contractwr yn rhoi'r gorau i fasnachu; neu

26.1.4 yn torri unrhyw un o'r darpariaethau yn y Contract hwn mewn modd difrifol neu'n methu â chydymffurfio â'r darpariaethau hynny dro ar ôl tro neu'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw un o gyfarwyddiadau rhesymol a chyfreithlon CNC; neu

26.1.5 yn newid trefniadau rheoli o fewn ystyr Adran 416 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988, sy'n cael effaith andwyol a materol ar berfformiad y contract.

26.2 Gall CNC ond ymarfer ei hawl o dan amod 26.1.5 o fewn 6 mis i'r dyddiad y mae'r trefniadau rheoli'n newid, ac ni chaniateir iddo wneud hynny os yw wedi cytuno i'r newid dan sylw ar bapur ymlaen llaw. Bydd y Contract yn hysbysu Goruchwyliwr y Contract yn syth pan fydd unrhyw drefniadau rheoli'n newid.

26.3 Heb ymrwymiad i unrhyw hawliau neu gamau unioni eraill sydd gan CNC o dan y Contract, mae CNC yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract neu unrhyw ran o'r Contract ar unrhyw adeg trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr o leiaf fis ymlaen llaw.

26.4 Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Contract, neu derfynu darpariaeth unrhyw ran o'r Contract, trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r parti arall a fydd yn dod i rym yn syth os bydd y parti arall yn torri'r Cytundeb trwy Ddiffygdalu ac:

26.4.1 os na chywirir y Diffygdalu o fewn 30 diwrnod, neu gyfnod arall y gall y ddau barti gytuno arno, i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r Diffygdalu ac yn gofyn am iddo gael ei gywiro; neu

26.4.2 os nad oes modd cywiro'r Diffyg.

26.5 Er gwaethaf unrhyw hawliau terfynu eraill a amlinellir yn y Contract hwn, gall CNC derfynu'r Cytundeb hwn trwy gyflwyno hysbysiad terfynu ysgrifenedig i'r Contractwr:

- 26.5.1 os yw'r Contractwr yn methu'r Lefelau Gwasanaeth mewn ffordd faterol. At ddibenion y ddarpariaeth hon, bydd materol yn golygu bod y methiant yn cael effaith faterol ar allu CNC i ddefnyddio'r Gwasanaethau neu gael mynediad at Ddata'r Feddalwedd, deunyddiau eraill sy'n cael eu gwe-letya gan y Gwasanaethau neu eitemau eraill sy'n cael eu cefnogi a'u cynnal gan y Contractwr; neu
- 26.5.2 os yw'r Contractwr yn methu tair Lefel Gwasanaeth neu fwy dri mis yn olynol.

Terfynu Trwydded

- 26.6 Bydd trwydded a roddir o dan y Contract hwn yn goroesi hyd yn oed os bydd y Contract yn dod i ben neu'n cael ei derfynu.
- 26.7 Dim ond trwy roi 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig (neu gyfnod arall a gytunir gan y partion) y bydd y Trwyddedwr ond yn gallu terfynu trwydded a gyhoeddir o dan y Contract hwn:
- 26.7.1 os yw CNC yn defnyddio'r Feddalwedd at unrhyw ddiben heblaw'r diben a nodir yn y Contract; neu
- 26.7.2 os yw CNC yn torri Telerau'r Drwydded mewn ffordd faterol ac, os oes modd cywiro'r diffyg, nad yw'n cael ei gywiro o fewn 30 Diwrnod Gwaith i'r Contractwr yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i CNC ac unrhyw gontractwr amgen (os yn berthnasol) yn nodi'r diffyg ac yn gofyn am iddo gael ei adfer.

Mae pob hawl derfynu arall mewn perthynas â'r Drwydded, gan gynnwys yr hawliau hynny a nodir yn amod 9 o'r Amodau Cyffredinol, yn cael eu heithrio drwy hyn i'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith.

- 26.8 Pan fydd y drwydded a gyhoeddir o dan y Contract hwn yn dod i ben am ba bynnag reswm, bydd CNC:
- 26.8.1 yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Feddalwedd; ac
- 26.8.2 yn ôl disgrisiwn CNC, yn dychwelyd neu'n dinistrio'r Feddalwedd.

- 26.9 Os bydd y Contract yn cael ei derfynu yn unol ag amod 2.2, ni fydd CNC o dan unrhyw rwymedigaeth i dalu Pris y Contract. Os bydd Pris y Contract, neu unrhyw ran ohono, wedi'i dalu ymlaen llaw, bydd y Contractwr yn ad-dalu'r hyn a dalwyd o fewn 20 diwrnod i'r dyddiad terfynu.

Meddalwedd Newydd

- 26.10 Mewn perthynas â'r hawliau terfynu a amlinellir yn yr Amodau Cyffredinol, mae CNC yn cadw'r hawl i derfynu'r Contract yn syth ar ôl derbyn hysbysiad yn unol ag amod 2.4.3 o'r Amodau Arbennig hyn.

- 26.11 Os bydd CNC yn ymarfer yr hawl i derfynu yn unol ag amod 7.1, gall CNC hefyd:

26.11.1 Ddychwelyd yr holl Feddalwedd Newydd a'r deunyddiau eraill a dderbyniwyd fel cerrig milltir blaenorol; neu

26.11.2 Gadw'r Feddalwedd Newydd a'r deunyddiau eraill.

Os bydd CNC yn cadw Meddalwedd Newydd a deunyddiau eraill o'r fath, bydd yn talu swm wedi'i gyfraddio a gytunir rhwng y partïon sy'n cynrychioli gwerth yr eitemau a gedwir. Os bydd CNC wedi gwneud unrhyw daliad cyn terfynu, bydd y Contractwr yn ad-dalu'r taliad hwn:

26.11.3 yn llawn os bydd CNC wedi ymarfer ei hawl yn unol ag amod 26.11.1; neu

26.11.4 yn rhannol o ystyried y swm wedi'i gyfraddio a gytunir, lle mae CNC wedi ymarfer ei hawl yn unol ag amod 26.11.2

Dylai pob taliad o'r fath gael ei wneud o fewn 20 diwrnod i gyhoeddi'r hysbysiad.

- 26.12 Gall unrhyw anghydfod mewn perthynas â'r swm wedi'i gyfraddio a gytunir yn unol ag amod 26.11 gael ei gyfeirio gan y naill barti neu'r llall at y weithdrefn datrys anghydfod a amlinellir yn amod 34 o'r Amodau Cyffredinol.

27. CANLYNIADAU TERFYNU

- 27.1 Ar ôl derfynu'r Contract yn unol ag amod **Error! Reference source not found.**, 26.1.3, 26.1.5 neu 26.2, bydd CNC yn:

27.1.1 talu'r symiau sy'n ddyledus i'r Contractwr a wariwyd yn rhesymol hyd at y dyddiad terfynu lle mae CNC wedi derbyn Gwasanaethau o werth cyfatebol.

27.1.2 talu'r symiau sy'n ddyledus i'r Contractwr am wariant ar ôl y dyddiad terfynu, cyn belled â bod y gwariant hwnnw o ganlyniad i ymrwymadau a wnaeth y Contractwr mewn ewyllys da cyn y dyddiad y cafodd yr hysbysiad terfynu ei gyhoeddi ac nad oedd modd eu dirymu neu eu lliniaru cyn y dyddiad terfynu. Bydd y Contractwr yn cyflwyno rhestr lawn wedi'i chostio o golledion o'r fath, gyda thystiolaeth ategol o golledion y Contractwr o ganlyniad i derfynu o fewn 5 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad terfynu

cyn belled y byddai unrhyw swm o'r fath sy'n ddyledus yn unol â'r amod hwn wedi bod yn daladwy gan CNC pe na bai'r Contract wedi'i derfynu ac nad yw'r swm hwnnw'n fwy na Phris y Contract.

27.2 Ni fydd CNC yn atebol o dan amod 27.1.2 i dalu unrhyw swm yr oedd modd ei hawlio o dan yr yswiriant sydd gan y Contractwr (neu a ddylai fod gan y Contractwr yn unol â'r Contract).

27.3 Pan fydd y cytundeb hwn yn dod i ben neu'n cael ei derfynu am ba bynnag reswm, bydd y Contractwr yn darparu unrhyw gymorth ac yn gwneud popeth yn unol â chais rhesymol CNC i sicrhau bod y Gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n ddiraffferth naill ai i CNC neu i Contractwr arall. Bydd camau o'r fath yn cynnwys:

27.3.1 dychwelyd yr holl Feddalwedd, Data a deunyddiau eraill sy'n cael eu gwe-letya ar y Gwasanaeth yn brydlon i CNC, ynghyd â dogfen ffurfweddiad yn nodi'r amgylchedd a ffurfweddiad y Gwasanaeth;
a

27.3.2 throsglwyddo gwybodaeth mewn perthynas â'r Gwasanaethau a'r Feddalwedd yn unol â chais rhesymol gan CNC.

27.4 Os bydd y Contract yn cael ei derfynu yn unol ag amod 3.2.2, ni fydd gan CNC unrhyw rwymedigaeth i dalu Pris y Contract. Os bydd Pris y Contract, neu unrhyw ran ohono, wedi'i dalu ymlaen llaw, bydd y Contractwr yn ad-dalu'r cyfryw swm o fewn 20 diwrnod i'r dyddiad terfynu.

28. INDEMNIAD

28.1 Heb ymrwymiad i gamau unioni eraill CNC mewn perthynas â Diffygdlu neu achosion o dorri'r Contract, bydd y Contractwr yn indemnio CNC a'i staff yn erbyn unrhyw atebolrwydd, colled, costau (gan gynnwys costau cyfreithiol), treuliau, hawliadau, camau gweithredu, iawndal neu achosion sy'n codi o ganlyniad i'r Contract neu mewn cysylltiad ag ef, gan gynnwys mewn perthynas â:

28.1.1 marwolaeth neu anaf i unrhyw unigolyn;

28.1.2 colled neu ddifrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys Eiddo CNC);

28.1.3 torri Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti;

28.1.4 colled ariannol o ganlyniad i unrhyw gyngor a roddwyd neu na roddwyd gan y Contractwr;

28.1.5 unrhyw golled arall a allai godi o ganlyniad i weithredoedd neu esgeulustod y Contractwr, ei Staff neu ei asiantau wrth weithredu'r Contract.

28.2 Ni fydd amod 28.1 yn berthnasol i'r graddau bod modd dangos bod y difrod, yr anaf neu'r farwolaeth o ganlyniad uniongyrchol i weithredoedd neu esgeulustod CNC neu ei staff.

28.3 Ni fydd yr indemniad a ddarperir o dan amod 28.1.3 yn berthnasol i'r graddau bod unrhyw hawliad o'r fath yn cyfeirio'n at gynlluniau, technegau neu ddulliau gweithio a nodir gan CNC neu'r defnydd o ddata a gyflenwir gan CNC nad oes angen i'r Contractwr ei ddilysu o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract.

29. TERFYN ATEBOLRWYDD

29.1 Yn amodol ar amod 29.3, bydd atebolrwydd y Contractwr am bob hawliad o dan y Contract neu mewn cysylltiad ag ef, boed hynny trwy indemniad neu dorri contract, bydd unrhyw gamwedd (gan gynnwys esgeulustod neu dorri dyletswydd statudol), camliwio, adferiad neu fel arall, wedi'i gyfyngu i 125% o Bris y Contract neu bum miliwn o bunnoedd, pa un bynnag sydd fwyaf.

29.2 Yn amodol ar amod 29.3, bydd atebolrwydd CNC o dan y Contract neu mewn cysylltiad ag ef, boed hynny trwy gamwedd (gan gynnwys esgeulustod neu dorri

dyletswydd statudol), contract, camliwio, adferiad neu fel arall, wedi'i gyfyngu fel a ganlyn:

- 29.2.1 am beidio â thalu anfonebau am Wasanaethau a brynwyd, i'r swm heb ei dalu; neu
 - 29.2.2 am unrhyw fath arall o atebolrwydd, i'r swm a dalwyd am y Gwasanaethau o dan y Contract yn ystod y 12 mis blaenorol.
- 29.3 Nid yw'r naill barti na'r llall yn eithrio nac yn cyfyngu ar atebolrwydd i'r llall am farwolaeth neu anaf personol a achoswyd gan ei esgeulustod, am dorri unrhyw rwymedigaethau o dan Adran 12 o Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979 neu unrhyw atebolrwydd arall lle na chaniateir eithrio'r gyfraith. Yn ogystal, bydd yr atebolrwydd o ganlyniad i'r indemniad yn amod 28.1 yn ddiderfyn.
- 29.4 Yn amodol ar amod 29.3, ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol i'r llall am:
- 29.4.1 unrhyw golled neu ddifrod anuniongyrchol, arbennig neu ganlyniadol; neu
 - 29.4.2 golli unrhyw elw, trosiant, cyfleoedd busnes neu ddifrod i ewyllys da (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).
- 29.5 Yn amodol ar y cyfyngiad yn amod 29.1, gall CNC adennill y canlynol, ymysg pethau eraill, fel colled uniongyrchol:
- 29.5.1 unrhyw gostau a threuliau gweithredol a/neu weinyddol ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i Ddiffygdlu'r Contractwr;
 - 29.5.2 unrhyw wariant a wastraffwyd neu gostau diangen i CNC o ganlyniad i Ddiffyg y Contractwr;
 - 29.5.3 cost ychwanegol caffael gwasanaethau newydd am weddill Cyfnod y Contract; ac
 - 29.5.4 unrhyw arbedion a ragwelir yng Ngorchymyn y Contract.

30. YSWIRIANT

- 30.1 Bydd y Contractwr yn caffael ac yn cynnal yswiriant sy'n darparu lefel ddigonol o sicrwydd mewn perthynas â phob risg i'r Contractwr yn deillio o berfformio'r Contract, gan gynnwys marwolaeth neu anaf personol, colled neu ddifrod i eiddo,

atebolwydd cyflogwr a cholled ariannol o ganlyniad i gyngor a roddwyd neu na roddwyd gan y Contractwr mewn perthynas ag unrhyw golled arall.

30.2 Os bydd yn ofyniad penodol gan CNC, bydd yswiriant enwebedig yn enw'r Contractwr a CNC ar y cyd.

30.3 Bydd y Contractwr, ar gais, yn cyflwyno tystiolaeth ddogfennol i Oruchwyliwr y Contract i ddangos bod yr yswiriant gofynnol wedi'i dalu'n llawn ac yn ddilys ar gyfer holl gyfnod y Contract.

31. **GWRTHDARO AC YSGOGIADAU**

31.1 Mae'r Contractwr yn cadarnhau, ar ddyddiad y Contract, na fydd y Contractwr na'i Staff na'i gyflenwyr yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle bydd yna wrthdaro, neu wrthdaro posibl, rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y Contractwr neu bobl o'r fath a dyletswyddau sy'n ddyledus i CNC o dan ddarpariaethau'r Contract ac y bydd yn cymryd camau priodol i sicrhau na fydd yna wrthdaro o'r fath gydol Cyfnod y Contract. Bydd y Contractwr yn datgelu i CNC fanylion llawn unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath a all godi.

31.2 Ni fydd y Contractwr yn cynnig neu'n cytuno i roi unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath i unrhyw weithiwr cyflogedig, asiant, gwas neu gynrychiolydd CNC fel ysgogiad neu wobr am wneud neu wrthod gwneud unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu weithredu'r Contract neu unrhyw gontract arall gyda CNC, neu am ddangos neu wrthod dangos ffafriaeth neu ddiffyg ffafriaeth i unrhyw unigolyn mewn perthynas â'r Contract neu unrhyw gontract o'r fath. Tynnir sylw'r Contractwr at y troseddau o dan Ddeddfau Atal Llygredd 1889 a 1916 a Deddf Llwgrwobrwyo 2010.

31.3 Ni fydd y Contractwr yn llofnodi'r Contract os oes comisiwn wedi'i dalu mewn perthynas ag ef neu os oes yna gytundeb i dalu comisiwn i weithiwr cyflogedig neu gynrychiolydd CNC gan y Contractwr neu ar ran y Contractwr oni bai bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb i dalu'r comisiwn hwnnw wedi'u datgelu'n ysgrifenedig i CNC cyn i'r Contract gael ei lofnodi.

31.4 Bydd y Contractwr yn diogelu cyllid CNC ar gyfer y Contract rhag twyll ac, yn enwedig, twyll ar ran ei Staff neu ei gyfarwyddwyr a'i gyflenwyr. Bydd y Contractwr yn hysbysu CNC yn syth os oes ganddo reswm i amau bod unrhyw dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

32. **ARCHWILIO**

32.1 Bydd y Contractwr yn caniatáu i CNC a/neu ei asiantau, ei gynrychiolwyr a'i archwilwyr a/neu Gorff Rheoleiddio gael mynediad at y canlynol bob amser:

32.1.1 Cofnodion a deunyddiau ac asedau eraill y mae'r Contractwr yn eu defnyddio wrth ddarparu'r Gwasanaethau;

32.1.2 Staff y Contractwr sy'n cyfrannu at ddarparu'r Gwasanaethau;

32.1.3 Mynediad rhesymol i unrhyw safleoedd neu eiddo a reolir gan y Contractwr ac at unrhyw gyfarpar neu systemau a ddefnyddir (boed hynny'n gyfyngedig neu'n anghyfyngedig) wrth ddarparu'r Gwasanaethau; a

32.1.4 Gweld, cynnal neu gael mynediad i ganlyniadau unrhyw brofion ar brosesau diogelwch a gwrth-fesurau y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith yn unol ag amod 38 ac amod 45.1.3.

32.2 Os yw'r Gwasanaethau'n cael eu darparu mewn lleoliad nad yw'n eiddo i CNC, rhoddir rhybudd rhesymol i'r Contractwr o'r bwriad i gynnal unrhyw archwiliad. Bydd y Contractwr yn darparu'r holl gyfleusterau sy'n rhesymol i'r archwilydd arolygu ac archwilio unrhyw gyfleuster o'r fath.

32.3 Bydd y Contractwr yn cydweithredu gydag unrhyw archwiliad a gynhelir yn unol â'r amod hwn a bydd yn sicrhau bod gwybodaeth a chofnodion y mae'n rhesymol ofynnol i'r archwilydd eu gweld ar gael fel y gall yr archwilydd gynnal yr archwiliad am ddim ac yn amserol, a bydd yn caniatáu i'r archwilydd wneud copïau o wybodaeth a chofnodion o'r fath.

33. **CYDRADDOLDEB A CHYFLE CYFARTAL**

33.1 Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn erbyn unrhyw unigolyn a bydd yn sicrhau hefyd nad yw ei staff yn gwneud hynny.

33.2 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â pholisi CNC ar gyfle cyfartal (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) ac yn sicrhau bod ei Staff sy'n cyfrannu at ddarparu'r Gwasanaethau yn gwneud hynny hefyd.

33.3 Os bydd unrhyw Lys neu dribiwnlys yn penderfynu bod y Contractwr neu unrhyw un o'i Staff a ddefnyddiwyd gan y Contractwr yn ystod cyfnod y Contract wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon, neu os bydd corff swyddogol yn dod i benderfyniad tebyg mewn unrhyw ymchwiliad ffurfiol dros yr un cyfnod, rhaid i'r Contractwr hysbysu CNC yn ysgrifenedig a chymryd pob cam angenrheidiol yn syth i atal y gwahaniaethu anghyfreithlon rhag digwydd eto. Rhaid i'r Contractwr, ar gais, ddarparu manylion ysgrifenedig i CNC am bob cam a gymerir o dan amod 33.3.

34. **DATA CNC**

34.1 Ni fydd y Contractwr yn dileu nac yn symud unrhyw hysbysiadau perchnogol sydd wedi'u cynnwys yn Nata CNC neu sy'n ymwneud â'r data hwnnw.

34.2 Ni fydd y Contractwr yn storio, yn cadw, yn copïo nac yn datgelu neu'n defnyddio Data CNC oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn i'r Contractwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu, fel arall, bod CNC wedi awdurdodi'r Contractwr i wneud hynny ar bapur.

34.3 I'r graddau bod Data CNC yn cael ei gadw a/neu ei brosesu gan y Contractwr, ac ar ôl derbyn cais gan CNC, bydd y Contractwr yn rhoi copi o'r Data CNC hwnnw i CNC yn y fformat a nodwyd yn y cais.

34.4 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb Data CNC ac atal Data CNC rhag cael ei lygru neu ei golli.

34.5 Os bydd hi'n ofynnol i'r Contractwr gyflawni unrhyw waith ar Amgylchedd Gweithredu byw, bydd y Contractwr yn gyfrifol am sicrhau bod copïau wrth gefn o holl Ddata CNC yn cael eu gwneud. Bydd copïau o'r fath yn cael eu cadw'n ddiogel gan y Contractwr a'u darparu i CNC ar gais.

34.6 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod unrhyw system y mae'r Contractwr yn cadw unrhyw Ddata CNC arni, gan gynnwys data wrth gefn, yn system ddiogel sy'n cydymffurfio â'r Polisiâu Diogelwch a bod ganddo fesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data hwnnw.

34.7 Os bydd Data CNC yn cael ei lygru, ei golli neu ei ddiraddio o ganlyniad i Ddiffyg y Contractwr fel nad oes modd ei ddefnyddio, gall CNC:

34.7.1 ei gwneud hi'n ofynnol i'r Contractwr (ar draul y Contractwr) adfer neu gaffael y gwaith o adfer Data CNC i'r graddau ac yn unol â'r gofynion a nodir gan CNC; a/neu

34.7.2 adfer neu gaffael y gwaith o adfer Data CNC ei hun, gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r Contractwr ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol a wariodd CNC wrth wneud hynny i'r graddau ac yn unol â'r gofynion a nodir gan CNC.

34.8 Os bydd y Contractwr yn amau bod Data CNC wedi cael ei lygru, ei golli neu ei ddiraddio mewn unrhyw ffordd am unrhyw reswm, neu os bydd ganddo reswm dros gredu bod hynny wedi digwydd neu y gall ddigwydd, bydd y Contractwr yn hysbysu CNC yn syth a hysbysu CNC am unrhyw gamau adfer y mae'r Contractwr yn bwriadu eu cymryd.

35. **DEDDF DIOGELU DATA**

35.1 Mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau'r partïon o dan y Contract hwn, mae'r partïon yn cytuno mai CNC yw rheolydd y data ac mai'r Contractwr yw prosesydd y data.

35.2 Os bydd y Contractwr yn prosesu data personol (yn ôl diffiniad y DDD) fel prosesydd data ar gyfer CNC, bydd y Contractwr yn sicrhau ei fod wedi rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data personol ac i'w ddiogelu rhag cael ei brosesu'n anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ei golli neu ei ddinistrio'n ddamweiniol neu ei ddifrodi, gan roi ystyriaeth i natur y data personol i'w ddiogelu.

35.3 Er gwaethaf natur gyffredinol amod 35.2, bydd y Contractwr yn:

35.3.1 prosesu'r data personol yn unol â chyfarwyddiadau CNC yn unig;

35.3.2 prosesu'r data personol ond i'r graddau ac yn y modd sy'n angenrheidiol i ddarparu'r Gwasanaethau neu fel sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith neu gan unrhyw Gorff Rheoleiddio;

35.3.3 cael caniatâd gan CNC er mwyn trosglwyddo'r data personol i unrhyw Staff er mwyn darparu'r Gwasanaethau;

35.3.4 sicrhau bod unrhyw Staff sydd angen cael mynediad at y data personol yn cael gwybod am natur gyfrinachol y data personol ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a amlinellir yn amod **Error! Reference source not found.** ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau dibynadwyedd unrhyw Staff sydd â mynediad at ddata personol;

35.3.5 sicrhau nad oes neb o staff y Contractwr yn cyhoeddi nac yn datgelu unrhyw ddata personol i unrhyw drydydd parti oni bai bod CNC yn gofyn iddo wneud hynny ar bapur;

35.3.6 hysbysu CNC (o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith) os bydd yn derbyn:

(a) cais gan unigolyn y mae ganddo ddata amdano i gael gweld data personol yr unigolyn hwnnw; neu

(b) cwyn neu gais yn ymwneud â rhwymedigaethau CNC o dan y DDD,

ac yn cydweithredu'n llawn gyda CNC mewn perthynas ag unrhyw gŵyn neu gais a wneir, gan gynnwys trwy:

(a) ddarparu manylion llawn y gŵyn neu'r cais i CNC;

(b) cydymffurfio ag unrhyw gais i gael mynediad at ddata o fewn yr amserlenni perthnasol yn y DDD ac yn unol â chyfarwyddiadau CNC;

(c) darparu i CNC unrhyw ddata personol sydd ganddo mewn perthynas ag unigolyn y mae ganddo ddata amdano (o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol gan CNC); a

(d) darparu i CNC unrhyw wybodaeth y bydd CNC yn gwneud cais amdani.

35.3.7 caniatáu i CNC neu ei gynrychiolwyr (yn amodol ar ymrwymadau cyfrinachedd rhesymol a phriodol) arolygu ac archwilio gweithgareddau prosesu data'r Contractwr (a/neu ei asiantau a'i is-contractwyr) a chydymffurfio â phob cais neu gyfarwyddyd rhesymol gan CNC i alluogi CNC i ddilysu a/neu gaffael bod y Contractwr yn cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn;

35.3.8 darparu disgrifiad ysgrifenedig o'r dulliau technegol a sefydliadol a ddefnyddir gan y Contractwr i brosesu data personol (o fewn yr amserlenni a nodir gan CNC);

35.3.9 peidio â phrosesu data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CNC ac, os bydd CNC yn cytuno i drosglwyddiad, yn cydymffurfio ag

unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan CNC a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rheolydd data o dan yr wyth egwyddor diogelu data a amlinellir yn Atodlen 1 o'r DDD trwy ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch i unrhyw ddata personol a drosglwyddir;

35.3.10 darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar CNC i fodloni ei hun bod y Contractwr yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y DDD;

35.3.11 hysbysu CNC yn syth o unrhyw achos o dorri mesurau diogelwch;
a

35.3.12 sicrhau nad yw'n gwneud unrhyw beth yn fwriadol neu yn sgil esgeulustod a fydd yn golygu bod CNC yn torri rhwymedigaethau CNC o dan y DDD.

35.4 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â'r DDD bob amser ac ni fydd yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Contract hwn mewn ffordd a fydd yn achosi i CNC dorri unrhyw un o'i rhwymedigaethau perthnasol o dan y DDD.

35.5 Bydd darpariaethau amod 35.5 yn berthnasol yn ystod Cyfnod y Contract ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo ddod i ben neu gael ei derfynu.

36. **HAWL I GYHOEDDI**

36.1 Ac eithrio unrhyw wybodaeth na chaniateir ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae'r Contractwr yn cydnabod nad yw cynnwys y Contract hwn yn Wybodaeth Gyfrinachol. Bydd CNC yn gyfrifol am bennu a yw unrhyw ran o gynnwys y Contract wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Er gwaethaf unrhyw delerau eraill yn y Contract hwn, mae'r Contractwr yn cydsynio i CNC gyhoeddi'r Contract yn ei gyfanrwydd i'r cyhoedd (ond gydag unrhyw wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei golygu), gan gynnwys, o bryd i'w gilydd, newidiadau cytunedig i'r Contract.

36.2 Gall CNC ymgynghori â'r Contractwr i lywio ei benderfyniad ynghylch unrhyw eithriadau, ond CNC fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn ôl ei ddisgresiwn.

36.3 Bydd y Contractwr yn cynorthwyo ac yn cydweithredu gyda CNC i'w alluogi i gyhoeddi'r Contract hwn.

37. CYFRINACHEDD

37.1 Bydd pob parti:

37.1.1 yn trin Gwybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i'r parti arall fel gwybodaeth gyfrinachol, ac yn ei diogelu yn unol â hynny; ac

37.1.2 ni fydd yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i'r parti arall i unrhyw unigolyn arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti arall, ac eithrio i bobl ac i'r graddau a all fod yn angenrheidiol i berfformiad y Contract neu os bydd darpariaethau'r Contract yn caniatáu datgelu'r wybodaeth honno'n benodol.

37.2 Bydd y Contractwr yn cymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i sicrhau bod yr holl Wybodaeth Gyfrinachol a geir gan CNC o dan y Contract neu mewn cysylltiad ag ef:

37.2.1 ond yn cael ei rhoi i'r Staff a chynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol hynny sy'n ei gynghori mewn cysylltiad â'r Contract, a dim ond os yw'n angenrheidiol i berfformiad y Contract ac i'r graddau y mae'n angenrheidiol i berfformiad y Contract;

37.2.2 yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac nad yw'n cael ei datgelu (heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CNC) na'i defnyddio gan unrhyw Staff neu gynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol, heblaw at ddibenion y Contract; a

37.2.3 bod ei Staff neu gynghorwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol yn ymwybodol o rwymedigaethau cyfrinachedd y Contractwr o dan y Contract a'u bod yn llofnodi ymrwymiad cyfrinachedd ar yr un telerau cyn dechrau gwaith mewn cysylltiad â'r Contract.

37.3 Ni fydd amod 37 yn berthnasol i Wybodaeth Gyfrinachol:

37.3.1 sydd ar gael i'r cyhoedd neu a fydd ar gael i'r cyhoedd (ac eithrio trwy dorri unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd); neu

37.3.2 a oedd yn hysbys i barti, heb gyfyngiad mewn perthynas â'i datgelu, cyn i'r wybodaeth gael ei datgelu iddo gan y parti arall; neu

- 37.3.3 a dderbynnir gan drydydd parti a gafodd y wybodaeth yn gyfreithlon ac nad yw'n destun unrhyw rwymedigaeth yn cyfyngu ar ei datgelu; neu
 - 37.3.4 y mae'n ofynnol iddi gael ei datgelu yn ôl y Gyfraith, gan gynnwys unrhyw ofyniad i'w datgelu o dan y DDD, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; neu
 - 37.3.5 a ddatblygwyd yn annibynnol gan barti heb fynediad uniongyrchol neu anuniongyrchol, neu ddefnydd o neu wybodaeth am, y wybodaeth a ddatgelwyd iddo gan y parti arall.
- 37.4 Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn atal CNC rhag datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Contractwr, gan gynnwys y Wybodaeth Reoli:
- 37.4.1 i unrhyw un o gyrff y goron neu unrhyw Awdurdod Contractio arall y bydd ganddo hawl i ddatgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol ymhellach i gyrff eraill y goron neu Awdurdodau Contractio eraill ar y sail ei bod yn gyfrinachol ac na ddylid ei datgelu i drydydd parti nad yw'n gorff y goron neu'n Awdurdod Contractio;
 - 37.4.2 at ddibenion archwilio ac ardystio cyfrifon CNC; neu
 - 37.4.3 ar gyfer archwilio'n unol ag adran 6(1) o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 mewn perthynas â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol mae CNC wedi defnyddio ei adnoddau.

Bydd CNC yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau, os bydd yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol o dan yr amod hwn, bod y parti'n ymwybodol o rwymedigaethau cyfrinachedd CNC.

- 37.5 Mae naill barti a'r llall yn cadw pob hawl yn ei Wybodaeth Gyfrinachol. Ni chaniateir unrhyw hawliau neu rwymedigaethau mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol parti, heblaw'r rhai a gaiff eu datgan yn glir yn y Contract, i'r parti arall, ac ni ddylid tybio hynny yn sgil y Contract hwn.
- 37.6 Ni fydd unrhyw beth yn amod 37 yn atal y naill barti na'r llall rhag defnyddio technegau, syniadau na gwybodaeth a gafwyd wrth ddarparu'r Contract wrth gyflawni ei fusnes arferol i'r graddau na fydd y defnydd hwn yn arwain at ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y parti arall neu dorri Hawliau Eiddo Deallusol.

37.7 Ar ôl terfynu'r Contract hwn, bydd pob parti:

- 37.7.1 yn dychwelyd i'r parti arall bob dogfen a deunydd (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall;
- 37.7.2 yn dileu holl Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall o'i systemau cyfrifiadurol (i'r graddau sy'n bosibl); ac
- 37.7.3 yn ardystio ar bapur i'r parti arall ei fod wedi cydymffurfio â gofynion yr amod hwn, cyn belled â bod parti derbyn yn gallu cadw dogfennau a deunyddiau sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar Wybodaeth Gyfrinachol y parti arall i'r graddau sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith. Bydd darpariaethau amod 37 yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw ddogfennau a deunyddiau o'r fath a gedwir gan y parti derbyn.

cyn belled na fydd 37.7 yn berthnasol i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a ddarperir gan y Contractwr i CNC wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn ac sy'n angenrheidiol fel y gall CNC elwa ar y Gwasanaethau ar ôl i'r Contract gael ei derfynu.

37.8 Ac eithrio lle nodir hynny'n benodol yn y Contract hwn, ni fydd unrhyw barti'n gwneud unrhyw warant benodol neu awgrymiedig neu sylwadau ynghylch ei Wybodaeth Gyfrinachol.

37.9 Bydd darpariaethau amod 37 yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl i'r Contract hwn gael ei derfynu.

38. **GWYBODAETH FONITRO A RHEOLI**

38.1 Ar gais CNC, bydd y Contractwr yn cyflenwi'r Wybodaeth Reoli i CNC a/neu i Lywodraeth Cymru yn ystod Cyfnod y Contract.

38.2 Mae'r Contractwr yn cydnabod ac yn cytuno y gall CNC ddarparu gwybodaeth am y Gwasanaethau ac unrhyw daliadau a wnaed o dan y Contract i Lywodraeth Cymru.

38.3 Ar ôl derbyn y Wybodaeth Reoli a gyflenwir gan y Contractwr o dan amod 38.1 neu wybodaeth a ddarperir gan CNC i Lywodraeth Cymru o dan amod 38.2, mae CNC a'r Contractwr yn cydsynio i Lywodraeth Cymru:

- 38.3.1 Storio a dadansoddi'r Wybodaeth Reoli a chynhyrchu ystadegau;
a
- 38.3.2 Rhannu'r Wybodaeth Reoli neu unrhyw ystadegau a gynhyrchir gan ddefnyddio'r Wybodaeth Reoli gydag unrhyw Awdurdod Contractio arall.
- 38.4 Os bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'r Wybodaeth Reoli neu wybodaeth a ddarperir o dan amod 38.2 yn unol ag amod 38.3.2, bydd unrhyw Awdurdod Contractio sy'n derbyn y Wybodaeth Reoli yn cael gwybod am natur gyfrinachol y wybodaeth honno ac yn derbyn cais i beidio â'i datgelu i unrhyw gorff nad yw'n Awdurdod Contractio (oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith).
- 38.5 Gall CNC wneud newidiadau i'r Wybodaeth Reoli y mae'n ofynnol i'r Contractwr ei chyflenwi a bydd yn rhoi o leiaf fis o rybudd ysgrifenedig i'r Contractwr o unrhyw newidiadau.
39. **Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH A RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**
- 39.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod CNC yn ddarostyngedig i ofynion y Cod Ymarfer ar Wybodaeth y Llywodraeth, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithredu gyda CNC (ar draul y Contractwr) i alluogi CNC i gydymffurfio â'r gofynion hyn.
- 39.2 Bydd y Contractwr yn sicrhau ei fod ef a'i holl Staff yn:
- 39.2.1 trosglwyddo i CNC bob cais am wybodaeth a dderbynnir cyn gynted ag y bo'n ymarferol a beth bynnag, o fewn 2 ddiwrnod gwaith i dderbyn cais am wybodaeth;
- 39.2.2 darparu copi i CNC o'r holl wybodaeth yn ei feddiant neu ei bŵer yn y fformat sydd ei angen ar CNC o fewn 5 diwrnod gwaith (neu gyfnod arall y bydd CNC yn ei nodi) i gais CNC; a
- 39.2.3 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y mae CNC yn gofyn amdano i alluogi CNC i ymateb i gais am wybodaeth o fewn y cyfnod cydymffurfio a amlinellir yn adran 10 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu reoliad 5 yn y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

- 39.3 Bydd CNC yn gyfrifol am bennu a yw unrhyw wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol sensitif neu fel arall, wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â darpariaethau'r Cod Ymarfer ar Wybodaeth y Llywodraeth (y "Cod"), y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, neu a fydd yn cael ei datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Contractwr yn ymateb yn uniongyrchol beth bynnag i gais am wybodaeth oni bai bod CNC wedi ei awdurdodi i wneud hynny.
- 39.4 Wrth ymateb i gais am wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth mewn cysylltiad â'r Contract (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddogfennau tendro, gwybodaeth gytundebol ddilydol neu wybodaeth a ddsberthir fel gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif), bydd CNC yn gwneud ymdrech resymol i ymgynghori â'r Contractwr os bydd yn teimlo bod angen gwneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn llwyr. Er gwaethaf hyn, mae'r Contractwr yn cydnabod y gall CNC, yn unol â'r Cod, ddatgelu gwybodaeth am y Contractwr neu'r Gwasanaethau heb ymgynghori â'r Contractwr neu, ar ôl ymgynghori â'r Contractwr ac ystyried ei safbwynt, ar yr amod y bydd CNC yn cymryd camau rhesymol lle bo hynny'n briodol i roi rhybudd i'r Contractwr ymlaen llaw neu, os na fydd yn gwneud hynny, tynnu sylw'r Contractwr at y datgeliad ar ôl unrhyw ddatgeliad o'r fath.
- 39.5 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir yn ystod y Contract neu sy'n ymwneud â'r Contract yn cael ei chadw i'w datgelu a bydd yn darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd yn rhesymol i CNC ofyn amdano i alluogi CNC i ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amser cydymffurfio ac yn caniatáu i CNC archwilio cofnodion o'r fath ar gais o bryd i'w gilydd.
- 39.6 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif a nodir gan y Contractwr o werth dangosol yn unig ac efallai y bydd rheidrwydd ar CNC i'w datgelu yn unol ag amod **Error! Reference source not found..**

40. **DIOGELWCH**

- 40.1 Mae'r Contractwr yn cydnabod bod CNC yn rhoi cryn bwyslais ar gyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd gwybodaeth ac, o ganlyniad, ar ddiogelwch Eiddo a diogelwch unrhyw systemau o eiddo'r Contractwr. Mae'r Contractwr hefyd yn cydnabod cyfrinachedd Data CNC.
- 40.2 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw rai o'i systemau ac, a bydd yn darparu lefel o ddiogelwch bob amser:

- 40.2.1 sy'n unol ag Arferion Da'r Diwydiant a'r Gyfraith;
 - 40.2.2 sy'n cydymffurfio ag unrhyw Bolisiâu Diogelwch neu unrhyw bolisi y mae'n ofynnol gan CNC i'r Contractwr ei ddatblygu, ei weithredu a'i gynnal;
 - 40.2.3 sy'n mynd i'r afael ag unrhyw fygythiadau diogelwch penodol i unrhyw un o systemau'r Contractwr;
 - 40.2.4 sy'n cydymffurfio ag ISO/IEC27002 ac ISO/IEC27001;
 - 40.2.5 isafswm y mesurau diogelwch a'r safonau sy'n ofynnol lle bydd y system yn trafod gwybodaeth sensitif neu wybodaeth "i'w diogelu" (fel a bennir gan '*Manual of Protective Security*' Swyddfa'r Cabinet neu gyffelyb); ac
 - 40.2.6 unrhyw ofynion cenedlaethol eraill yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth a chanllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd.
- 40.3 Dylai'r Contractwr osgoi defnyddio cyfryngau symudol i storio gwybodaeth neu Ddata CNC lle bo hynny'n bosibl. Os defnyddir cyfryngau symudol, bydd y Contractwr yn sicrhau:
- 40.3.1 Y trosglwyddir dim mwy o wybodaeth neu Ddata CNC i'r cyfryngau symudol na'r isafswm sydd ei angen i ddarparu'r Gwasanaethau, boed o ran nifer y bobl a gwmpesir gan y wybodaeth a chwmpas y wybodaeth; a
 - 40.3.2 bod y cyfryngau symudol wedi'u hamgryptio i o leiaf FIPS 140-2 neu gyfwerth a'u bod yn cael eu diogelu gan fecanwaith dilysu;
 - 40.3.3 bod hawliau i drosglwyddo Data CNC i gyfryngau symudol wedi'u cyfyngu'n benodol i staff y mae'n gwbl angenrheidiol iddynt gael yr hawliau hynny.
- 40.4 Heb gyfyngu ar amod **Error! Reference source not found.**, bydd y Contractwr, ar adegau, yn sicrhau bod lefel y diogelwch a ddefnyddir wrth ddarparu'r Gwasanaethau yn briodol i gynnal y canlynol ar lefelau risg derbyniol (yn unol ag Arfer Da'r Diwydiant ar gyfer sector cyhoeddus y DU):

- 40.4.1 colli cywirdeb Data CNC;
 - 40.4.2 colli cyfrinachedd Data CNC;
 - 40.4.3 defnydd, ymyrraeth neu fynediad anawdurdodedig at Ddata CNC gan unrhyw unigolyn neu sefydliad;
 - 40.4.4 mynediad anawdurdodedig at elfennau rhwydwaith, Eiddo ac offer a ddefnyddir gan y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau;
 - 40.4.5 defnydd o systemau neu Wasanaethau'r Contractwr gan unrhyw drydydd parti er mwyn cael mynediad anawdurdodedig at unrhyw adnodd cyfrifiadurol neu Ddata CNC; a
 - 40.4.6 cholli argaeledd Data CNC oherwydd unrhyw fethiant neu gyfaddawdu'r Gwasanaethau.
- 40.5 Dylai'r naill barti neu'r llall hysbysu'r parti arall yn syth pan fydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw feddalwedd faleisus neu achos o dor-diogelwch, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, achos o dor-diogelwch gwirioneddol neu bosibl neu ymgais i wneud hynny, neu fygythiad i unrhyw gynllun diogelwch sydd ar waith gan CNC neu y mae angen i'r Contractwr ei ddatblygu a'i roi ar waith.
- 40.6 Pan fydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau y cyfeirir atynt yn amod 0, bydd y Contractwr yn mynd ati'n syth i gymryd pob cam rhesymol i:
- 40.6.1 unioni achos o dor-diogelwch neu ddiogelu systemau'r Contractwr yn erbyn unrhyw achos o dor-diogelwch neu fygythiad posibl; ac
 - 40.6.2 atal achos o dor-diogelwch tebyg yn y dyfodol.

Bydd camau o'r fath yn cynnwys unrhyw gam gweithredu neu newidiadau sy'n ofynnol gan CNC.

- 40.7 Os digwydd unrhyw rai o'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn amod 0, bydd y Contractwr yn mynd ati cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i ddarparu manylion llawn i CNC (gan ddefnyddio mecanweithiau adrodd a bennir gan CNC o bryd i'w gilydd) am unrhyw achos o dor-diogelwch gwirioneddol neu bosibl neu ymgais i wneud hynny a'r camau a gymerwyd mewn perthynas ag achos o'r fath.

41. **EIDDO**

41.1 Er gwaethaf natur gyffredinol amod **Error! Reference source not found.**, mewn perthynas â'r Eiddo, bydd y Contractwr yn:

41.1.1 sicrhau bod pawb sy'n darparu'r Gwasanaethau ar yr Eiddo yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r polisiau diogelwch, gan gynnwys y Gofynion Iechyd a Diogelwch, sydd ar waith ar yr Eiddo o bryd i'w gilydd; ac

41.1.2 yn cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau CNC, a gyflwynwyd iddo mewn perthynas â'i fynediad i Eiddo o'r fath (gan gynnwys symud unrhyw unigolyn oddi yno ar gais CNC).

42. **PRIS Y CONTRACT, ANFONEBU A THALU**

42.1 Bydd CNC yn talu symiau diamheuol sy'n ddyledus i'r Contractwr o fewn 30 diwrnod calendr i dderbyn anfonebau a chytuno iddynt.

42.2 Yn ogystal â Phris y Contract, bydd CNC yn talu i'r Contractwr unrhyw Dreth ar Werth sy'n ddyledus (os o gwbl). Os yn berthnasol, dylai treth gael ei dangos ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net.

42.3 Bydd gan y Contractwr hawl i anfonebu am Bris y Contract (neu ran ohono) yn unol â'r Proffil Talu neu, os na nodir Proffil Talu, ar ôl cwblhau'r Gwasanaethau i foddhad CNC ynghyd â Threuliau rhesymol (os caniateir trwy gyfeirio at Orchymyn y Contract) a gaiff eu gwario wrth ddarparu'r Gwasanaeth.

42.4 Bydd pob anfoneb yn cynnwys rhif yr archeb brynu (a ddarperir gan CNC o bryd i'w gilydd), yr holl gyfeirnodau priodol a dadansoddiad manwl o'r Gwasanaethau (gan gynnwys, os yn briodol, taflenni amser wedi'u llofnodi gan Oruchwyliwr y Contract) a Threuliau, ac unrhyw wybodaeth arall a all fod yn ofynnol yn rhesymol gan CNC i ddilysu anfoneb y Contractwr.

42.5 Bydd anfonebau'n cael eu hanfon i'r cyfeiriad (gan gynnwys mewn fformat electronig os cytunir hynny gyda'r Contractwr) y bydd CNC yn hysbysu'r Contractwr amdano o bryd i'w gilydd.

42.6 Gall CNC leihau'r tâl mewn perthynas ag unrhyw Wasanaethau y mae'r Contractwr wedi methu â'u darparu neu y mae wedi'u darparu'n annigonol, heb ymrwymiad i unrhyw hawliau neu gamau unioni eraill CNC.

43. **HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

- 43.1 Bydd yr holl Hawliau Blaenorol a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau yn parhau i fod yn eiddo i'r parti a gyflwynodd yr Hawliau hynny.
- 43.2 Ac eithrio mewn perthynas â'r Feddalwedd, mae'r Contractwr yn cyflwyno i CNC drwydded anghyfyngedig, ddi-alw'n-ôl, barhaol sy'n rhydd o freindal mewn perthynas â holl Hawliau Blaenorol y Contractwr sydd eu hangen er mwyn i CNC ddefnyddio, neu ganiatáu i eraill ddefnyddio, y Gwasanaethau a'r Hawliau Dilynol.
- 43.3 Mae CNC yn caniatáu i'r Contractwr ddefnyddio Hawliau Blaenorol CNC i'r graddau sy'n angenrheidiol i'r Contractwr ddarparu'r Gwasanaethau.
- 43.4 Breinir yr holl Hawliau Dilynol yn CNC wrth iddynt gael eu creu. Os na fydd yr Hawliau Dilynol yn cael eu breinio i CNC wrth iddynt gael eu creu, bydd y Contractwr yn aseiniol'r holl Hawliau Dilynol, trwy aseiniad i'r dyfodol, i CNC (neu'n caffael yr aseiniad i CNC).
- 43.5 Mae'r Contractwr yn cadarnhau bod yr holl Hawliau Blaenorol y mae'n bwriadu eu defnyddio neu eu darparu wrth ddarparu'r Gwasanaeth wedi'u nodi yng Ngorchymyn y Contract.
- 43.6 Mae'r Contractwr yn ildio unrhyw hawliau moesegol, neu bydd yn caffael yr ildiad hwnnw, yn yr Hawliau Dilynol nad oes ganddo hawl iddynt neu efallai y bydd ganddo hawl iddynt yn y dyfodol o dan Bennod IV o Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw ddarpariaethau tebyg mewn unrhyw awdurdodaeth.

44. **CAMFANTEISIO**

- 44.1 Mae'r partïon yn cydnabod y gall unrhyw waith datblygu arwain at bosibiliadau camfanteisio posibl yn y farchnad ehangach. Os bydd y Contractwr yn nodi bod yna botensial o'r fath, bydd yn hysbysu CNC a bydd y partïon yn gweithio'n ddiwyll.

45. **GWARANT**

- 45.1 Bydd y Contractwr yn gwarantu:

45.1.1 Bod ganddo'r gallu a'r awdurdod llawn a'r holl gydsyniadau angenrheidiol i lofnodi a darparu'r Contract a bod y Contract yn cael ei weithredu gan gynrychiolydd awdurdodedig y Contractwr;

- 45.1.2 Y bydd holl rwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract hwn yn cael eu cyflawni gan Staff profiadol, priodol a chymwys sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â'r holl sgiliau, gallu, gofal a diwydrwydd sydd ei angen gan gynnwys Arferion Da'r Diwydiant, ac yn unol â'i weithdrefnau mewnol ei hun;
 - 45.1.3 Y bydd pob aelod o Staff a ddefnyddir i ddarparu'r Gwasanaethau yn cael eu fetio yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant ac, os yn berthnasol, yn destun Gweithdrefn Fetio Staff neu gyfwerth ac unrhyw Bolisiâu Diogelwch;
 - 45.1.4 Y bydd y Gwasanaethau i foddhad rhesymol CNC ac yn addas i ddiben bwriedig CNC ac yn bodloni unrhyw ofynion i'r graddau y maent wedi'u cyfathrebu i'r Contractwr neu y byddai'n rhesymol disgwyl iddo wybod amdanynt;
 - 45.1.5 Y bydd y Gwasanaethau'n cydymffurfio â gofynion unrhyw Gyfraith berthnasol a fydd ar waith o bryd i'w gilydd a bod ganddo ac y bydd yn parhau i gael yr holl gymeradwyaeth angenrheidiol (os oes angen) gan unrhyw Gorff Rheoleiddio sydd ei hangen i gyflawni rhwymedigaethau'r Contractwr o dan y Contract;
 - 45.1.6 Na fydd yn methu â thalu unrhyw drethi dyledus a thaladwy nac yn methu â ffeilio, cofrestru neu gofnodi unrhyw ddogfen nac o dan unrhyw rwymedigaeth neu ofyniad cyfreithiol neu statudol a fydd yn cael effaith andwyol faterol ar ei fusnes, ei asedau neu ei gyflwr ariannol neu ei allu i gyflawni neu gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Contract;
 - 45.1.7 Na fydd yr Hawliau Blaenorol a'r Hawliau Dilydol, a gyflenwir neu a drwyddedir gan y Contractwr, yn amharu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o eiddo unrhyw drydydd parti.
- 45.2 I osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y ffaith bod unrhyw ddarpariaeth yn y Contract hwn wedi'i mynegi fel gwarant yn atal unrhyw hawl i derfynu sydd gan CNC mewn perthynas ag achos o dorri'r ddarpariaeth honno gan y Contractwr.

46. **ADENNILL SYMIAU DYLEDUS**

46.1 Os bydd unrhyw swm o arian i'w adennill gan y Contractwr neu'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract (gan gynnwys unrhyw swm y bydd rhaid i'r Contractwr ei dalu i CNC mewn perthynas â thorri'r Contract), gall CNC ddiwyngu'r swm hwnnw o unrhyw swm sy'n ddyledus neu a fydd yn ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract ar unrhyw adeg yn y dyfodol neu o dan unrhyw gytundeb neu gontract arall gyda CNC.

47. **RHEOLIADAU CYFLOGAETH**

47.1 Pe gallai terfynu'r Contract hwn arwain at "drosglwyddiad perthnasol" yn ystyr Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, bydd y Contractwr yn cytuno i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 a chydweithredu â CNC a/neu unrhyw Gontractwr Amgen yn achos trosglwyddiad perthnasol. Bydd cydweithredu o'r fath yn cynnwys rhwymedigaeth i ddarparu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth y bydd CNC ei hangen mewn perthynas â throsglwyddiad posibl o'r fath.

47.2 Mae'r partïon yn cytuno y bydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn berthnasol i amod 47 i'r graddau sy'n angenrheidiol i sicrhau y bydd gan unrhyw Gontractwr Amgen yr hawl i orfodi'r rhwymedigaethau sy'n ddyledus i, a'r indemniad a roddir i'r Contractwr Amgen gan y Contractwr yn ei rinwedd ei hun yn unol ag adran 1(1) o Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

48. **YR AMGYLCHEDD**

48.1 Bydd y Contractwr, yn ei holl weithredoedd, gan gynnwys prynu deunyddiau, nwyddau a gwasanaethau, yn mabwysiadu dull amgylcheddol rhagweithiol cadarn gyda'r nod o leihau niwed i'r amgylchedd a gallu darparu prawf ei fod yn gwneud hynny i Oruchwyliwr y Contract ar gais.

48.2 Bydd y Contractwr yn darparu'r holl Wasanaethau gan ystyried unrhyw dargedau amgylcheddol sydd gan CNC ac yn gwneud pob ymdrech resymol i helpu CNC i gyfrannu at dargedau o'r fath, gan gynnwys, er enghraifft, wrth ddewis deunydd pacio, gan sicrhau ei fod wedi rhoi ffafriaeth i ddeunyddiau sy'n cynnwys deunydd wedi'i ailgylchu a'r gallu i ailgylchu neu, os nad yw ailgylchu cost-effeithiol yn ymarferol, y biddiraddadwyedd mwyaf posibl.

49. **CYHOEDDUSRWYDD**

49.1 Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith, ni fydd y Contractwr yn hysbysebu nac yn gwneud cyhoeddiad cyhoeddus ei fod yn cyflenwi Gwasanaethau, yn llofnodi contract nac yn cyflawni gwaith ar gyfer CNC (boed hynny cyn neu ar ôl cwblhau) heb gydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Oruchwyliwr y Contract.

50. **HAWLILDIAD**

50.1 Ni ystyrir y bydd unrhyw oedi, esgeulustod neu oddefgarwch gan CNC o ran gorfodi unrhyw ddarpariaeth yn y Contract yn hawlildiad nac yn tanseilio hawliau CNC o dan y Contract mewn unrhyw ffordd, ac ni fydd yn atal nac yn cyfyngu ar unrhyw ddefnydd pellach o'r hawl neu'r cam unioni hwnnw nac unrhyw hawl neu gam unioni arall.

50.2 Ni fydd unrhyw hawlildiad gan CNC yn effeithiol oni bai ei fod wedi'i gyflwyno ar bapur a bydd ond yn berthnasol i'r parti y mae wedi'i gyfeirio ato ac ar gyfer yr amgylchiadau penodol y mae'n sôn amdanynt.

50.3 Ni fydd unrhyw hawlildiad gan CNC o achos o dorri'r Contract yn gyfystyr â hawlildiad o unrhyw doriad dilynol.

50.4 Ac eithrio os nodir yn wahanol yn y Contract, mae pob cam unioni sydd ar gael i'r naill barti neu'r llall ar gyfer achos o dorri'r Contract yn gronnus a gallant gael eu defnyddio gyda'i gilydd neu ar wahân, ac ni ystyrir bod defnyddio unrhyw gam unioni yn golygu y bydd cam unioni o'r fath yn cael ei ddefnyddio gan eithrio camau unioni eraill.

51. **Y GALLU I ORFODI**

51.1 Os bydd llys o awdurdodaeth gymwys neu awdurdod cymwys arall yn dod i'r casgliad bod unrhyw ran o'r Contract yn annilys neu'n anghyfreithlon neu nad oes modd ei orfodi, bydd y rhan honno'n cael ei dileu o weddill y Contract a bydd y darpariaethau eraill yn parhau ar waith fel pe bai'r Contract wedi'i weithredu gyda'r ddarpariaeth annilys neu anghyfreithlon wedi'i dileu.

52. **DATRYS ANGHYDFOD**

52.1 Bydd pob anghydfod o dan neu mewn cysylltiad â'r cytundeb hwn yn cael ei gyfeirio yn y lle cyntaf at swyddogion negodi a enwebwyd ar lefel waith addas a phriodol gan CNC a'r Contractwr.

- 52.2 Os na all swyddogion negodi'r partïon ddatrys yr anghydfod o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad cyfeirio, caiff yr anghydfod ei gyfeirio at uwch reolwyr neu gyfarwyddwyr y partïon (gyda chymorth eu cynghorwyr yn ôl yr angen).
- 52.3 Os na all uwch reolwyr neu gyfarwyddwyr y partïon ddatrys yr anghydfod o fewn 10 diwrnod, gall y naill barti neu'r llall gyfeirio'r anghydfod i gael ei ddatrys yn unol â Gweithdrefn Gyfryngu Enghreifftiol CEDR. Ar ôl derbyn y cyfeiriad, bydd y Centre for Effective Dispute Resolution yn penodi cyfryngwr a bydd y partïon yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddatrys yr anghydfod i'r cyfryngwr.
- 52.4 Bydd rhwymedigaeth ar y partïon i ddefnyddio'r weithdrefn datrys anghydfod hon o ran cyflwyno'r anghydfod i'r cyfryngwr, ond nid o ran y canlyniad. Yn unol â hynny, bydd yr holl drafodaethau sy'n ymwneud â'r anghydfod yn cael eu cynnal yn gyfrinachol a heb ymrwymiad i hawliau'r partïon mewn unrhyw achos cyfreithiol yn y dyfodol. Ac eithrio hawl unrhyw barti i gael cymorth dros dro yn y llysoedd, ni all unrhyw barti gychwyn achosion cyfreithiol eraill o dan awdurdodaeth y llysoedd neu unrhyw fath arall o gyflafareddiad o fewn 45 diwrnod i benodi'r cyfryngwr.
- 52.5 Os bydd y partïon, gyda chymorth y cyfryngwr, yn dod i gytundeb, bydd cytundeb o'r fath yn cael ei roi ar ffurf ysgrifenedig ac, ar ôl iddo gael ei lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig o bob parti, bydd yn rhwymo'r partïon.
- 52.6 Bydd y partïon yn ysgwyddo eu costau cyfreithiol eu hunain mewn perthynas â'r weithdrefn datrys anghydfod hon, ond bydd y costau a'r treuliau cyfryngu yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y partïon.
- 52.7 Gall unrhyw derfynau amser yn amod 51 gael eu hymestyn trwy gydgytundeb. Ni fydd ymestyniad o'r fath yn effeithio ar hawl y naill barti neu'r llall i fynd ymlaen i'r cam datrys nesaf.

53. **CYFFREDINOL**

- 53.1 Ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol i'r llall am unrhyw oedi neu fethiant i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract os bydd oedi neu fethiant o'r fath o ganlyniad i ddigwyddiad *Force Majeure*. Er gwaethaf yr uchod, bydd y naill barti a'r llall yn gwneud pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract. Os bydd y naill barti neu'r llall yn dod yn ymwybodol o amgylchiadau *Force Majeure* sy'n arwain neu sy'n debygol o arwain at oedi neu fethiant o'r fath, bydd yn hysbysu'r parti arall cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol bosibl ac yn amcangyfrif am ba hyd y bydd y methiant neu'r oedi'n parhau. Os na all parti gyflawni ei

rwymedigaethau o dan y Contract o ganlyniad i *Force Majeure* am gyfnod o fwy na 3 mis (o ddyddiad darparu'r hysbysiad), gall y parti arall derfynu'r cytundeb trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig a ddaw i rym yn syth.

- 53.2 Mae'r Contract ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo yn cynnwys y cytundeb rhwng y partïon ac yn disodli'r holl ohebiaeth, sylwadau a threfniadau blaenorol, ar bapur neu ar lafar, mewn perthynas â thestun y Contract. Derbynnir nad yw'r Contract wedi'i wneud ar sail unrhyw sylwadau, datganiadau, sicrwydd neu warantau gan unrhyw unigolyn nad ydynt wedi'u cynnwys (neu y cyfeirir atynt) yn benodol yn y Contract.
- 53.3 Ni ystyrir bod unrhyw beth yn y cytundeb hwn yn golygu partneriaeth neu fenter ar y cyd o unrhyw fath rhwng y partïon nac asiant y parti arall at unrhyw ddiben. Ni fydd y Contractwr yn gwneud unrhyw archebion, nac yn achosi i unrhyw archebion gael eu gwneud, gyda chyflenwyr nac yn mynd i gostau yn enw CNC neu unrhyw gynrychiolydd CNC nac yn rhwymo CNC mewn unrhyw ffordd.
- 53.4 Yn amodol ar amod 47.2, ni fydd gan unigolyn nad yw'n un o bartïon y Contract unrhyw hawliau o dan neu mewn cysylltiad ag ef yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

54. HYSBYSIAD

- 54.1 Bydd unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Contract yn ysgrifenedig ac yn cael ei ddarparu'n bersonol, neu gan negesydd masnachol, i bob Parti y mae'n ofynnol iddo dderbyn yr hysbysiad yn ei gyfeiriad fel y nodir yng Ngorchymyn y Contract neu i gyfeiriad arall y bydd y Parti perthnasol yn ei nodi mewn hysbysiad ysgrifenedig i'r llall.
- 54.2 Ystyrir bod unrhyw hysbysiad wedi'i roi'n briodol:
- 54.2.1 os cafodd ei ddsbarthu'n bersonol, gan ei adael yn y cyfeiriad y cyfeirir ato yng Ngorchymyn y Contract; neu
 - 54.2.2 os cafodd ei ddsbarthu gan negesydd masnachol, ar ddyddiad y llofnod ar dderbynneb y negesydd.
- 54.3 Ni fydd darpariaethau'r amod hwn yn berthnasol i wasanaethu unrhyw broses mewn unrhyw gamau neu achos cyfreithiol lle bydd y rheolau cyfreithiol arferol mewn perthynas â dosbarthu yn berthnasol.

55. **Y GYFRAITH AC AWDURDODAETH**

Bydd y Contract hwn a phob anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu'n codi mewn cysylltiad ag ef neu ei destun yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â deddfau Cymru a Lloegr fel y maent yn berthnasol yng Nghymru, ac yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

ATODLEN 1

DIFFINIADAU

CNC	CNC, yr Amgylchedd ei olynyddion a'i aseineion
Data CNC	<p>data, testun, darluniau, diagramau, delweddau neu synau (ynghyd ag unrhyw gronfa ddata sy'n cynnwys unrhyw rai o'r rhain) sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw gyfryngau electronig, magnetig, gweledol neu bendant ac:</p> <p>(a) a gyflenwir i'r Contractwr gan neu ar ran CNC; neu</p> <p>(b) y mae'n ofynnol i'r Contractwr eu cynhyrchu, eu prosesu, eu storio neu eu trosglwyddo yn unol â'r Contract</p>
Rhwymedigaethau CNC	y rhwymedigaethau hynny y nodir yng Ngorchymyn y Contract mai CNC sy'n gyfrifol amdanynt
Eiddo CNC	yr holl eiddo y mae CNC yn ei gyhoeddi neu'n ei ddarparu i'w ddefnyddio gan y Contractwr mewn cysylltiad â'r Contract
Capasiti	asiant, ymgynghorydd, cyfarwyddwr, gweithiwr cyflogedig, perchennog, partner, rhanddeiliad neu mewn unrhyw gapasiti arall
Gwybodaeth Gyfrinachol	unrhyw wybodaeth y mae'r naill barti neu'r llall wedi dynodi, ar bapur, ei bod yn gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ystyried ei bod yn gyfrinachol (sut bynnag y mae wedi'i chyflwyno neu ar ba bynnag gyfrwng y mae wedi'i storio), gan gynnwys y Wybodaeth Reoli, gwybodaeth yn ymwneud â'r busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, Gwasanaethau, datblygiadau, cyfrinachau masnachol, Hawliau Eiddo Deallusol, deallusrwydd, staff, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti neu'r llall a'r holl ddata personol a data

	personol sensitif o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 1998
Contract	yr Amodau Cyffredinol hyn, gan gynnwys Gorchymyn y Contract, unrhyw Amodau Arbennig a dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y dogfennau uchod neu sydd ynghlwm wrthynt
Gorchymyn y Contract	Gorchymyn y Contract sydd ynghlwm wrth yr Amodau Cyffredinol hyn
Cyfnod y Contract	y cyfnod a nodir yng Ngorchymyn y Contract, neu a ddarperir yn y Contract, ar gyfer darparu'r Gwasanaethau
Pris y Contract	y pris, heb gynnwys TAW, a amlinellir yng Ngorchymyn y Contract y mae'r Contractwr wedi cytuno i gyflenwi'r Gwasanaethau amdano
Goruchwyliwr y Contract	cynrychiolydd awdurdodedig CNC a nodir yng Ngorchymyn y Contract
Awdurdod Contractio	yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliad 3 yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006
Contractwr	yr unigolyn, y cwmni neu'r corff sy'n cytuno i gyflenwi'r Gwasanaethau i CNC yn ôl y diffiniad yng Ngorchymyn y Contract
Diffyg	unrhyw achos o dorri rhwymedigaethau'r naill barti neu'r llall (gan gynnwys toriad sylfaenol neu gyson neu dorri amod sylfaenol) neu ddiffyg, gweithred, esgeulustod neu ddatganiad gan y naill barti neu'r llall, ei weithwyr cyflogedig, ei asiantau neu ei is-gontractwyr mewn cysylltiad â thestun y Contract y mae'r parti'n atebol i'r parti arall amdano
Lleoliad Darparu	oni bai bod CNC wedi cytuno fel arall ar bapur, y lleoliad a nodir ar gyfer darparu yng Ngorchymyn y Contract
Dogfennaeth	unrhyw ddisgrifiad o'r Gwasanaethau, y Lefelau

Gwasanaeth, manylebau technegol, llawlyfrau defnyddwyr, llawlyfrau gweithredu, gweithdrefnau a diffiniadau proses ac unrhyw ddogfennau eraill y mae'n ofynnol i'r Contractwr eu darparu i CNC, y mae'r Contractwr eu hangen er mwyn darparu'r Gwasanaethau neu sydd wedi'u cynhyrchu neu a gynhyrchir at y diben neu mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau

DDD

Deddf Diogelu Data 1998

EIR

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Treuliau

y treuliau hynny a gaiff eu gwario gan y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau y nodir yng Ngorchymyn y Contract bod modd eu hadennill. Cyn belled â bod unrhyw dreuliau o'r fath yn cael eu talu gan CNC ar y cyfraddau cywir yn unol â pholisi treuliau CNC ar y pryd

FOIA

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

FOIA

the Freedom of Information Act 2000

Force Majeure

unrhyw ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y parti dan sylw ac na ellir ei briodoli i unrhyw weithred neu fethiant i gymryd camau ataliol gan y parti dan sylw, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) gydymffurfiaeth orfodol ag unrhyw reoliadau llywodraethol, gweithredoedd Duw (gan gynnwys tân, llifogydd, daeargryn neu drychineb naturiol arall), rhyfel neu ymosodiad terfysgol. I osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'n cynnwys unrhyw streiciau, cloi allan neu gamau diwydiannol eraill o fewn sefydliad y Contractwr neu unrhyw sefydliad is-gontractwr neu unrhyw ddiffyg perfformiad gan gyflenwyr ac is-gontractwyr y Contractwr

Amodau Cyffredinol	yr amodau a amlinellir yn y ddogfen hon
Arferion Da'r Diwydiant	defnyddio safonau, arferion, dulliau a gweithdrefnau a defnyddio sgil a gofal, diwydrwydd, doethineb a rhagwelediad i'r graddau a ddisgwylir gan unigolyn medrus a phrofiadol sy'n cyfrannu at waith o'r fath o dan yr un amgylchiadau neu amgylchiadau tebyg
Gofynion Iechyd a Diogelwch	yr holl ddeddfwriaeth, rheolau, polisiau a rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol a gofynion iechyd a diogelwch rhesymol eraill sydd ar waith gan CNC o bryd i'w gilydd
Hawliau Eiddo Deallusol	yr holl Hawliau Eiddo Deallusol, gan gynnwys, heb gyfyngiad, patentau, ceisiadau patent, hawliau dylunio, dyluniadau cofrestredig, hawliau cronfa ddata, modelau gwasanaeth, nodau masnach a gwasanaeth a cheisiadau amdanynt, hawlfraint, deallusrwydd, hawliau topograffi sglodion lled-ddargludydd ac, ym mhob achos, waeth a ydynt yn cael eu diogelu gan y gyfraith ai peidio ac, os ydynt yn cael eu diogelu, a oes cais wedi'i wneud am ddiogelwch o'r fath ai peidio, ac unrhyw hawliau diwydiannol, masnachol, monopoli neu hawliau eiddo deallusol eraill, nawr neu yn y dyfodol, yn gyfrifol neu'n amodol, lle bynnag y maent yn cael eu diogelu
Materion	gwallau, problemau, diffygion, methiannau neu faterion tebyg eraill sy'n codi mewn perthynas â'r eitemau hynny a gefnogir ac a gynhelir fel rhan o'r Gwasanaethau
Y Gyfraith	unrhyw gyfraith, statud, is-ddeddf, rheoliadau, gorchymyn, polisi rheoleiddio, canllawiau neu god diwydiant, rheol llys neu gyfarwyddebau neu ofynion unrhyw Gorff Rheoleiddio, deddfwriaeth wedi'i dirprwyo neu is-ddeddfwriaeth neu hysbysiad unrhyw Gorff Rheoleiddio cymwys

Gwybodaeth Reoli	y wybodaeth sy'n ofynnol gan y Contractwr fel y'i disgrifir yng Ngorchymyn y Gwasanaeth neu fel y nodir gan CNC o bryd i'w gilydd
Meddalwedd Newydd	meddalwedd a deunydd arall sy'n perthyn i'r diffiniad yn yr Hawliau Dilynol
Meddalwedd Ffynhonnell Agored	meddalwedd ffynhonnell agored fel y'i diffinnir gan yr Open Source Initiative (http://opensource.org) neu'r Free Software Foundation (http://www.fsf.org)
Amgylchedd Gweithredu	amgylchedd cyfrifiadura CNC (yn cynnwys caledwedd, meddalwedd a/neu rwydweithiau neu gyfarpar telathrebu), waeth a yw'n cael ei we-letya a'i gynnal gan CNC neu gan drydydd parti ar ei ran;
Proffil Talu	proffil talu ac unrhyw gerrig milltir talu a nodir yng Ngorchymyn y Contract
Lleoliad	y lleoliad lle darperir y Gwasanaethau fel y'i nodir yng Ngorchymyn y Gwasanaeth
Hawliau Blaenorol	yr hawliau eiddo deallusol mewn unrhyw wybodaeth neu ddeunydd a oedd yn bodoli cyn y Contract hwn, gan gynnwys, i osgoi unrhyw amheuaeth, y Feddalwedd
Cynhyrchion	unrhyw gynhyrchion a nodir yng Ngorchymyn y Contract y bydd y Contractwr yn eu cyflenwi i CNC (gan gynnwys unrhyw ran neu rannau ohonynt)
Corff Rheoleiddio	adrannau'r llywodraeth a phwyllgorau a chyrrff rheoleiddio a statudol a chyrrff eraill sydd â hawl i reoleiddio, ymchwilio neu ddylanwadu ar y materion a drafodir yn y cytundeb neu unrhyw rai o faterion eraill CNC, boed hynny o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu fel arall
Contractwr Amgen:	busnes, cwmni neu sefydliad y mae CNC yn ei gontractio i ddarparu'r Gwasanaethau neu wasanaeth

tebyg (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ar ôl terfynu'r Contract

Hawliau Dilynol

yr holl Hawliau Eiddo Deallusol sy'n cael eu creu, eu hysgrifennu neu eu gwneud gan y Contractwr, boed hynny'n annibynnol neu gydag eraill, wrth ddarparu'r Gwasanaethau neu fel arall o ganlyniad i'r Contract sydd, i osgoi unrhyw amheuaeth, yn cynnwys y Feddalwedd Newydd

Polisiâu Diogelwch

y polisiâu diogelwch a nodir yng Ngorchymyn y Contract neu, os na nodir unrhyw bolisiâu, polisiâu diogelwch safonol CNC o bryd i'w gilydd

Credydau Gwasanaeth

y credydau gwasanaeth a'r fethodoleg gyfrifo a nodir yng Ngorchymyn y Contract

Lefelau Gwasanaeth

y lefelau gwasanaeth a nodir yng Ngorchymyn y Contract neu, os na fydd unrhyw Lefelau Gwasanaeth wedi'u nodi, bydd y Lefelau Gwasanaeth yn cael eu hystyried fel y rhai a bennir gan y partïon o bryd i'w gilydd fel arferion gorau'r diwydiant. Os bydd y partïon yn methu â chytuno ar arfer gorau, gall y naill barti neu'r llall ddefnyddio'r weithdrefn datrys anghydfod yn amod 34 o'r Amodau Cyffredinol.

Gwasanaethau

pob Gwasanaeth, gan gynnwys Cynhyrchion, Meddalwedd a Meddalwedd Newydd a nodir yng Ngorchymyn y Contract

Amodau Arbennig

yr amodau penodol sydd ynghlwm wrth yr Amodau Cyffredinol yn ymwneud â'r math o wasanaethau sy'n cael eu caffael

Meddalwedd

yr holl feddalwedd ac eiddo deallusol arall a nodir yng Ngorchymyn y Contract, sy'n perthyn i'r diffiniad o Hawliau Blaenorol a ddarperir i CNC gan y Contractwr wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn

Staff	pawb a gyflogir gan y Contractwr i ddarparu'r contract, gan gynnwys gweision, asiantau ac is-contractwyr y Contractwr a ddefnyddir i ddarparu'r Contract
Gweithdrefn Fetio Staff	gweithdrefnau CNC a pholisi adrannol ar gyfer fetio staff
Safonau	y safonau a nodir yng Ngorchymyn y Contract neu, os na nodir unrhyw safonau, y safonau perthnasol a fabwysiadir gan CNC sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau o bryd i'w gilydd
Taliad Methu Prawf	cost tîm profi CNC, fel y'i nodir yng Ngorchymyn y Contract
Prawf neu Brofi	profion sy'n ofynnol yn ôl Gweithdrefn Brofi CNC ar y pryd neu brofion eraill y mae CNC o'r farn eu bod yn briodol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni ei ofynion a'i fanylebau ac yn cydweithredu gyda'i Amgylchedd Gweithredu
Amserlen	yr amserlen ar gyfer darparu a chwblhau'r Gwasanaethau fel y'i nodir yng Ngorchymyn y Contract
Diwrnodau Gwaith	diwrnod pan fo'r banciau clirio ar agor ar gyfer busnes, ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru neu Loegr
Oriau Gwaith	isafswm yr oriau y bydd y Contractwr yn eu neilltuo i'r Gwasanaethau fel y'u hamlinellir yng Ngorchymyn y Contract